



GWOBRAU  
NYRS Y FLWYDDYN  
COLEG NYRSIO BRENHINOL CYMRU

RHAGLEN  
*Gwobrau*

DYDD IAU 20 TACHWEDD 2025



[thercnwales.bsky.social](https://thercnwales.bsky.social)



[RCNWales](https://www.facebook.com/RCNWales)



[rcn\\_wales](https://www.instagram.com/rcn_wales)



[rcnwales](https://www.linkedin.com/company/rcnwales)



[rcn\\_wales](https://www.youtube.com/rcn_wales)



EIN NODDWYR



GWOBRAU  
**NYRS Y FLWYDDYN**  
COLEG NYRSIO BRENHINOL CYMRU



Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Aneurin Bevan  
University Health Board



Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Betsi Cadwaladr  
University Health Board



Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Caerdydd a'r Fro  
Cardiff and Vale  
University Health Board



Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Cwm Taf Morgannwg  
University Health Board



Iechyd a Gofal  
Digidol Cymru  
Digital Health  
and Care Wales



Addysg a Gwella Iechyd  
Cymru (AaGIC)  
Health Education and  
Improvement Wales (HEIW)



Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Hywel Dda  
University Health Board

**involve**  
Care & Support



Cyd-bwyllgor  
Comisiynu  
Joint Commissioning  
Committee



Bwrdd Iechyd  
Addysgu Powys  
Powys Teaching  
Health Board



Iechyd Cyhoeddus  
Cymru  
Public Health  
Wales

*sunday*  
HOTEL  
CARDIFF



Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Bae Abertawe  
Swansea Bay University  
Health Board



Ymddiriedolaeth GIG  
Prifysgol Felindre  
Velindre University  
NHS Trust



Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG  
Gwasanaethau Ambwlans Cymru  
Welsh Ambulance Services  
University NHS Trust



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Prifysgol Wrecsam  
Wrexham University

**NYRS Y FLWYDDYN**  
COLEG NYRSIO BRENHINOL CYMRU  
RHWYDWAITH CYN-ENWEBEION



RHAGLEN GWOBRAU 2025

# DIOLCH ARBENNIG GAN RCN CYMRU

Heb ein noddwyr ni fyddai digwyddiad heno wedi bod yn bosibl.  
Hoffai Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru ddiolch yn fawr iawn i bob un o'n noddwyr am ein helpu  
i ddathlu'r goreuon ym maes nyrsio yng Nghymru.

Trwy lwyddiant y Gwobrau hyn, lansiodd RCN Cymru Rwydwaith Cyn-enwebeion Nyrs y Flwyddyn Cymru yn swyddogol yn 2017. Mae Rhwydwaith y Cyn-enwebeion yn cynnig llwybr clir o gyfleoedd datblygu personol ac o ran gyrfa a sylw i'r rheini sydd wedi cyrraedd rownd derfynol y gwobrau. Mae'n creu grŵp brwdfrydig iawn o arweinwyr arloesol sy'n hyrwyddo nyrsio yng Nghymru a thu hwnt – yn y DU ac yn rhyngwladol.

Am ragor o wybodaeth e-bostiwrch [RCNWalesAlumni@rcn.org.uk](mailto:RCNWalesAlumni@rcn.org.uk)



Os oes gennych ddi-ddordeb mewn dod yn noddwr Gwobrau Nyrs y Flwyddyn RCN Cymru 2026, cysylltwch â ni drwy e-bost yn [nurseoftheyearawards@rcn.org.uk](mailto:nurseoftheyearawards@rcn.org.uk)

## CYNNWYS

|                                                       |       |
|-------------------------------------------------------|-------|
| Rhagair                                               | 4     |
| Dathlu Pen-blwydd Tŷ Maeth yn 60 Oed                  | 5     |
| Meistr y Ddefod ac Adloniant Heno                     | 6     |
| Gwobr Cyflawniad Oes 2025                             | 7     |
| Noddwyr ein Gwobrau                                   | 8-13  |
| Cwrdd â'r Enwebeion ar gyfer y Gwobrau                |       |
| Gwobr Nyrs Gofrestredig – Plant                       | 14    |
| Gwobr Nyrsio Gofal Sylfaenol a Chymunedol             | 15    |
| Gwobr Gwella Iechyd Unigolion a'r Boblogaeth          | 16    |
| Gwobr Ymchwil, Arloesedd a Digideiddio ym maes Nyrsio | 17    |
| Gwobr Nyrs Gofrestredig – Anableddau Dysgu            | 18    |
| Gwobr Nyrs Gofrestredig – Iechyd Meddwl               | 19    |
| Gwobr Nyrsio'r Sector Annibynnol                      | 20    |
| Gwobr Nyrsio Arbenigol                                | 21    |
| Gwobr Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd                  | 22    |
| Gwobr Addysg Nyrsio                                   | 23    |
| Gwobr Myfyriwr Nyrsio                                 | 24    |
| Gwobr Nyrs Gofrestredig – Oedolion                    | 25    |
| Gwobr Prif Swyddog Nyrsio Cymru                       | 26    |
| Nyrs y Flwyddyn Cymru 2025                            | 27    |
| Llongyfarchiadau                                      | 28-29 |

### Wi-Fi y digwyddiad:

Dewiswch Wi-Fi By Sunday a rhowch eich cyfeiriad e-bost, nodwch yr argymhellir eich bod yn defnyddio'r blwch ticio 'remember me'.





**Coleg Nyrsio Brenhinol**  
Cymru  
**Royal College of Nursing**  
Wales

## Noswaith dda, a chroeso i ddathliad eleni o sgiliau nyrsio rhagorol ac eithriadol – Gwobrau Nyrs y Flwyddyn Cymru y Coleg Nyrsio Brenhinol (RCN) 2025.

Ar ran yr RCN, mae'n anrhydedd fawr i mi estyn croeso cynnes Cymreig i'r enwebeion eithriadol sydd wedi cyrraedd y rownd derfynol, aelodau, noddwyr, gwesteion nodedig a chydweithwyr RCN. Heno rydym yn dod ynghyd i gydnabod nid yn unig ragoriaeth unigol ond cryfder cyfunol ein proffesiwn nyrsio ledled Cymru.

Mae nyrsio yn asgwrn cefn gofal iechyd – y dwylo gofalus, y meddyliau craff, a'r calonnau tosturiol sy'n cynnal ein system iechyd. O adrannau brys i gartrefi gofal, clinigau cymunedol i ystafelloedd dosbarth, mae nyrsys yno i bobl yn y cyfnodau pan fyddant fwyaf bregus. Maent yn arwain ymchwil, yn dylanwadu ar bolisi, yn arloesi mewn ymarfer, ac yn ysgogi gwelliannau ym maes gofal cleifion bob dydd. Yn syml, heb nyrsys cofrestredig ni allai'r GIG a'r sectorau iechyd a gofal cymdeithasol annibynnol weithredu.

Er bod y digwyddiad hwn yn ymwneud â dathlu, mae hefyd yn adeg i fyfyrion onest ar yr heriau sy'n wynebu ein proffesiwn. Mae'r gweithlu'n parhau i weithio o dan bwysau aruthrol – mynd i'r afael â phrinder staff, llwythi gwaith anniwel, a chyflog sy'n rhy aml yn methu ag adlewyrchu eu sgiliau a'u hymroddiad. Mae RCN Cymru yn parhau i ymgysgu'n ddi-baid dros gyflog teg, staffio diogel, a'r parch y mae ein proffesiwn nyrsio yn ei haeddu.

Yn gynharach eleni fe wnaethom sefyll yn gadarn yn erbyn cynnig Prifysgol Caerdydd i gau ei Hysgol Nyrsio – penderfyniad a fyddai wedi tanseilio'r cyflenwad o nyrsys yn y dyfodol yng Nghymru. Diolch i bwysau parhaus gan RCN Cymru ac eraill, cafodd y cynllun hwnnw ei wrthdroi, gan

ddiogelu traddodiad balch Cymru o feithrin y genhedlaeth nesaf o nyrsys.

Mae ein brwydr dros ofal diogel ac urddasol hefyd yn parhau drwy'r ymgyrch gofal coridor. Diolch i gefnogaeth ryfeddol y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol, cafodd ein deiseb i gael dadl yn y Senedd dros 10,000 o lofnodion. Bydd Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru yn parhau i gyflwyno tystiolaeth a mynnu newid, gan sicrhau nad oes unrhyw glaf na nyrs yn gorfod dioddef amodau anniwel ac annerbyniol.

Mae 2025 hefyd yn nodi carreg filltir bwysig – 60 mlynedd o RCN yng Nghymru. I ddathlu hyn, rydym wedi creu ffilm sy'n arddangos yr wyneb, y lleoedd, a'r eiliadau sydd wedi llunio ein stori. Mae'n deyrnged deimladwy i'r cenedlaethau o weithwyr nyrsio proffesiynol sydd wedi adeiladu'r proffesiwn yr ydym yn ei ddathlu heno.

Eleni, yn anffodus rydym wedi colli rhai nyrsys nodedig – gan gynnwys Tina Donnelly CBE FRCN, sylfaenydd y gwobrau hyn a chyn Gyfarwyddwr RCN Cymru. Mae ei hangerdd, ei harweinyddiaeth a'i hetifeddiaeth yn ysbrydoli pob stori rydym yn ei dathlu heno.

Mae enwebeion y rownd derfynol heno yn cynrychioli'r gorau o nyrsio yng Nghymru – gweithwyr proffesiynol sy'n arwain gyda gonestrwydd, tosturi a dewrder, yn aml yn yr amgylchiadau mwyaf heriol. Maent yn fodelau rôl, yn arloeswyr ac yn hyrwyddwyr ar ran eu cleifion a'u cydweithwyr fel ei gilydd.

Rydym yn diolch o waelod calon i'n noddwyr a'n panel beirniadu am eu cefnogaeth a'u hymrwymiad amhrisiadwy i gydnabod rhagoriaeth nyrsio.

I bob enwebai: ni waeth pa mor bell y gwnaethoch gyrraedd yn ein proses wobrwyo, rydych chi eisoes yn enillydd. Mae eich gwaith pob dydd – yn aml yn anweledig, bob amser yn hanfodol – yn newid bywydau ac yn cryfhau cymunedau. Mae Cymru'n iachach, yn fwy diogel ac yn fwy caredig o'ch herwydd chi.

Mwynhewch ddathliad heno o bopeth sy'n gwneud nyrsio'n nodedig.



## Jackie Davies

Cadeirydd  
Bwrdd RCN Cymru

Pencadlys RCN Cymru:

Tŷ Maeth, King George V Drive East, Caerdydd CF14 4XZ

Swyddfa Gogledd Cymru RCN:

Canolfan Fusnes Plas Eirias, Ffordd Abergele,

Bae Colwyn LL29 8BF





## DATHLU 60 MLYNEDD Tŷ MAETH: CURIAD CALON RCN CYMRU

Mae eleni yn nodi carreg filltir nodedig yn hanes nyrsio yng Nghymru – pen-blwydd Tŷ Maeth, pencadlys Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru, yn 60 oed. Yn fwy na dim ond adeilad, mae Tŷ Maeth wedi dod yn symbol o benderfyniad, undod, ac ymrwymiad diysgog i'r proffesiwn nyrsio

Dechreuodd y stori ym 1959, trobwynt i nyrsio Cymru. Er bod 1,000 o aelodau RCN ar y pryd, Cymru oedd yr unig wlad yn y DU heb ei Bwrdd ei hun. Cytunodd RCN mewn egwyddor y gallai Cymru sefydlu un – dim ond pe bai Cymru yn codi pob ceiniog oedd ei hangen.

Ym 1964, gweithiodd yr arwr o Gymro Harry Secombe gyda nyrsys i lansio apêl i godi arian ar gyfer adeilad i RCN Cymru. Cynhaliodd nyrsys ffeiriau llyfrau, nosweithiau caws a gwin, a llawer o weithgareddau i godi arian.

Sbardunodd y nyrsys a gymerodd ran yn yr ymgyrch codi arian fudiad a arweiniodd at greu Tŷ Maeth a gosod y sylfaen ar gyfer llais cenedlaethol pwerus i nyrsio yng Nghymru. Ym 1965 agorodd Ei Huchelder Brenhinol y Dywysoges Margaret adeilad Tŷ Maeth, pencadlys newydd RCN Cymru, yn swyddogol. Cafodd ei chroesawu gan 'osgordder anrhydedd' nyrsio a oedd yn cynrychioli pob un o'r 27 gradd a maes nyrsio yng Nghymru.

Dau ddegawd yn ddiweddarach arweiniodd RCN Cymru y ffordd unwaith eto, gan gydnabod rôl hanfodol ymchwil nyrsio mewn hyrwyddo gofal cleifion. O dan arweinyddiaeth y Cadeirydd Alun Islwyn Giles, cododd apêl codi arian uchelgeisiol ar gyfer Cadeirydd Ymchwil Nyrsio cyntaf Cymru swm anhygoel o £400,000. Roedd penodi Judith Maguire i'r swydd yn garreg filltir drawsnewidiol a helpodd i symud addysg ac ymarfer nyrsio i oes newydd.

Roedd Tŷ Maeth yn llawer mwy na phencadlys; roedd yn nodi dechrau oes newydd. Dros gyfnod o chwe degawd mae'r adeilad wedi sefyll yn gryf, ond mae ei ysbryd gwirioneddol yn dod o'r bobl sydd ynddo – yr aelodau ymroddedig sy'n gweithio'n ddiflino a'r staff sy'n eu cefnogi. Mae'n gartref i fudiad balch sy'n parhau i siapia nyrsio yng Nghymru.

Mae'r dylanwad parhaus hwn o gynnydd wedi'i blethu drwy hanes RCN Cymru. Mae'r sefydliad wedi hyrwyddo datblygiadau allweddol – o fynediad pob gradd i nyrsio, i gyflawni deddfwriaeth staffio diogel – gan arwain yn gyson o'r blaen. Dewrder ac argyhoeddiad a luniodd arweinyddiaeth gynnar Hettie Hopkins, Anne




Pegington OBE, Liz Hewett, a Tina Donnelly CBE FRCN, a heddiw mae'r un ysbryd yn parhau o dan arweinyddiaeth y Cyfarwyddwr Gweithredol Helen Whyley.

Mae RCN Cymru wedi dangos ei lais yng nghanol llywodraeth ers tro byd. Ers datganoli mae ei lais wedi dod yn gryfach fyth, gan eiriol yn bwerus dros y proffesiwn nyrsio, cleifion, a dyfodol gofal iechyd yng Nghymru. Fel corff proffesiynol ac undeb llafur, mae RCN Cymru yn cynrychioli ac yn amddiffyn aelodau, yn cynnig cefnogaeth ac arweiniad, ac yn darparu addysg a hyfforddiant. Mae'n falch o amrywiaeth ei aelodau ac yn parhau i fod wedi ymrwymo i gydraddoldeb, cynhwysiant, a thegwch.

Heddiw RCN Cymru yw'r sefydliad nyrsio mwyaf dylanwadol yn y wlad, yn cynrychioli anghenion a phryderon dros 32,000 o aelodau. Mae ei hanes cyfoethog o ymgyrchu wedi sbarduno gwelliannau cyson i staff nyrsio a'r bobl y maent yn gofalu amdanynt – ac mae'r effaith honno'n cael ei themlo ledled y wlad.

Chwe deg mlynedd yn ddiweddarach, mae'r pen-blwydd diemwnt hwn yn disgleirio gyda'r gwydnwch, y gwydchder, a'r ysbryd parhaol sydd wedi siapia Tŷ Maeth o'r garreg sylfaen i'r grym o ysbrydoliaeth ydyw heddiw. Gyda'i gilydd, bydd aelodau a staff yn cario'r etifeddiaeth honno ymlaen – gan sicrhau bod nyrsio yng Nghymru yn parhau i gael ei barchu, ei adnodd, a'i fod yn barod ar gyfer y genhedlaeth nesaf.



ARCHWILIWCH Y STORI  
Arddangosfa Taith  
RCN Cymru





# MEISTR Y DDEFOD AC ADLONANT HENO

## MEISTR Y DDEFOD

Mae Jason Mohammad, cyflwynydd teledu a radio y BBC, yn un o'r cyflwynwyr y mae galw mwyaf am ei wasanaeth yn y byd digwyddiadau a hysbysebu. Yn fwyaf adnabyddus am ei rôl ar *Final Score* a'r brif raglen bêl-droed *Match of the Day* a *MOTD2* ar BBC One, mae proffesiynoldeb, cynhesrwydd a hiwmor Jason yn ei wneud yn boblogaidd iawn gyda chynulleidfaoedd byw.

Mae Jason hefyd yn aelod balch iawn o deulu BBC Radio 2 yn cyflwyno *Good Morning Sunday* ar Radio 2 rhwng 6am a 9am bob penwythnos ac yn cyflwyno'r *Early Breakfast Show* ar Radio 2 yn rheolaidd yn ychwanegol at ei sioe ar BBC Radio Wales. Gellir ei weld hefyd ar ddarllediadau arbennig y BBC, gan gynnwys cyflwyno darllediad byw naw awr o hyd ar gyfer cyngerdd dychwelyd Oasis o Gaerdydd, Eid Live o Bradford a sylwebu ar ddathliadau Diwrnod VE 2025.

Mae hefyd wedi cyflwyno *Saturday Live* ar BBC Radio 4, bydd yn dewis ei Pick of the Week yn gyson ac mae wedi gwneud rhaglen ddogfen *The Ely Estate* ar gyfer yr orsaf.

Mae'r cyflwynydd a aned yng Nghaerdydd wedi cyflwyno Gemau Olympaidd 2012, 2016 a 2020, Gemau'r Gymanwlad 2014, 2018, 2022, rowndiau terfynol Cwpan yr FA, rowndiau terfynol Cwpan y Byd FIFA a Phencampwriaeth y Chwe Gwlad. Mae Jason hefyd wedi cyflwyno i Channel 4 Sport a Chwpan Rygbi'r Byd i S4C. Mae'n gefnogwr pêl-droed brwd ac yn cefnogi Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd.

Jason Mohammad

## ADLONANT

Perfformwraig o Gymru yw Sophie Evans sy'n adnabyddus am ei gwaith ar draws meysydd theatr, ffilm, teledu a cherddoriaeth fyw. Daeth i amlygrwydd yn 2010 pan ddaeth yn ail yng nghyfres *Over the Rainbow* y BBC, a ddewiswyd o blith dros 10,000 o ymgeiswyr. Yn 17 oed yn unig, cafodd ei dewis gan yr Arglwydd Andrew Lloyd Webber i chwarae rhan Dorothy yn *The Wizard of Oz* yn y London Palladium, gan ymgymryd â'r rôl yn llawn amser yn ddiweddarach a dod yn brif fenyw yn y cynhyrchiad *West End*.

Mae ei pherfformiadau llwyfan yn cynnwys Glinda yn *Wicked* (Apollo Victoria), *You Can't Succeed on Broadway* (The Other Palace), *The Night Before Christmas* (Salisbury Playhouse), *Irving Berlin's Rags to Ritzes* (Taith y DU), a *Lord of the Dance Michael Flatley* (Taith y DU, Broadway, Las Vegas).

Mae ymddangosiadau Sophie ar y sgrin yn cynnwys *The World's End*, *Pride*, a gwaith teledu a darlledu megis *Under Milk Wood*, *BBC Proms in the Park*, *The Really Welsh Christmas Show*, *Cariad@iaith*, a *Sunday Morning Live*. Bydd yn ymddangos yn rheolaidd gyda *Welsh of the West End* ac mae wedi perfformio ledled y byd ochr yn ochr â sêr megis Michael Ball, Katherine Jenkins ac Alfie Boe.

Yn 2020, cydweithiodd Sophie ag *Only Boys Aloud* ar recordiad arbennig o *Somewhere Over the Rainbow*, a gomisiynwyd gan RCN Cymru i nodi Blwyddyn Ryngwladol Nyrsys a Bydwagedd – teyrnged galonogol i bawb sy'n gweithio ym maes gofal iechyd ledled Cymru.

Sophie Evans



# GWOBR CYFLAWNIAD OES 2025

Noddir gan **Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg**



**GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES**

Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Cwm Taf Morgannwg  
University Health Board

Mae'r wobwr hon yn cydnabod Nyrs Gofrestredig eithriadol sydd wedi gwneud cyfraniad gydol-gyrfa i ymarfer nyrsio, gan arwain at etifeddiaeth o ganlyniadau sy'n well yn gynaliadwy i unigolion, cymunedau, a'r boblogaeth ehangach.

Bydd enwebeion ar gyfer y wobwr hon hefyd wedi gwneud cyfraniad sylweddol i ddatblygiad nyrsio fel proffesiwn a werthfawrogrir gan gymdeithas.

**Meini Prawf ar gyfer y Wobwr:** Bydd yr enwebai llwyddiannus wedi gwneud cyfraniad gydol oes parhaus i ddatblygiad sylweddol nyrsio ar lefel genedlaethol a/neu ryngwladol. Cydnabyddir y nyrs fuddugol fel:

- Rhywun sy'n gallu dangos hanes da o arweinyddiaeth flaengar, a bydd wedi ysbrydoli ymarfer nyrsio uwch
- Rhywun sy'n arbenigwr yn eu maes ac wedi cyflawni gwelliannau mesuradwy mewn ansawdd gofal.

## Cyhoeddir Gwobr Cyflawniad Oes 2025 yn y seremoni wobrwyo. Yr enwebeion ar y rhestr fer ar gyfer Gwobr 2025 yw:



**ANDREA CROFT**

Ymarferydd Nyrsio Uwch –  
Gwrthgeuledd, Bwrdd Iechyd  
Prifysgol Cwm Taf Morgannwg



**JANINE DAILEY**

Prif Nyrs Gwasanaeth Cyngori  
Iechyd y Bledren, y Coluddyn, a'r  
Pelfis, Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Hywel Dda



**ANGELA LODWICK**

Cyfarwyddwr Gwasanaeth  
Cynorthwyol Grŵp Gofal Clinigol  
Iechyd Meddwl ac Anableddau  
Dysgu, Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Hywel Dda



**DR CLAIRE  
MCCARTHY**

Nyrs Ymgynghorol,  
Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Aneurin Bevan



**DR CAROLYN  
MIDDLETON MBE**

Arweinydd Rhaglen, Cydymaith  
Nyrsio Cofrestredig, Iechyd  
Cyhoeddus Cymru

## ENILLWYR GWOBRAU CYFLAWNIAD OES BLAENOROL

**2013 Helen Bennett** Nyrs Bwrdd Clinigol, Iechyd Meddwl, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

**2014 Daphne Meredith-Smith** Pennaeth Nyrsio Iechyd Meddwl, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf

**2015 Brenda Scourfield** Nyrs Iechyd Ysgol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

**2016 Karen Logan OBE** Nyrs Ymgynghorol – Ymataliaeth, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

**2017 Tanya Strange MBE** Nyrs Ranbarthol, Gofal Sylfaenol a Rhwydweithiau, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

**2018 Yr Athro Ruth Northway OBE, FRCN** Athro Nyrsio Anableddau Dysgu, Prifysgol De Cymru

**2019 Angela Haley** Uwch Nyrs, Gwasanaethau Anadlol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

**2021 Caroline Whittaker RRC OSTJ** Arweinydd Ansawdd, Iechyd Cyhoeddus Cymru

**2023 Jill Paterson** Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol, Cymunedol a Hirdymor, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

**2024 Claire Hurlin** Pennaeth Cyflyrau Cymunedol a Chronig, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda



# NODDWYR EIN GWOBRAU



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Cwm Taf Morgannwg  
University Health Board

## GWOBWR CYFLAWNIAD OES

Noddir gan **Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg**

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn darparu gwasanaethau sylfaenol, cymunedol, ysbyty ac iechyd meddwl i dros 450,000 o bobl ledled Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf gan gynnwys gwasanaethau iechyd meddwl plant a phob ifanc arbenigol ar gyfer De Cymru

Gyda bron i 12,000 o staff, ein gweithlu yw enaid y Bwrdd Iechyd a'r cymunedau a wasanaethir gennym. Fel un o gyflogwyr mwyaf y rhanbarth, rydym wedi ymrwymo'n fawr i weithio mewn partneriaeth, sicrhau cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol a meithrin perthynas gref gyda'n staff a'n cymunedau.

Rydym yn credu mewn arloesedd i wella gofal clinigol, ac yn 2025 rydym yn falch o lansio Cyfadran Addysg Nyrsio a Bydwreigiaeth fel rhan o'n Hacademi Dysgu Clinigol newydd. Mae hyn yn gam arwyddocaol mewn datblygu ein gweithlu nyrsio a bydwreigiaeth yn y dyfodol a chryfhau addysg broffesiynol ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Betsi Cadwaladr  
University Health Board

## GWOBWR NYRS GOFRESTREDIG – PLANT

Noddir gan **Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yw'r sefydliad iechyd mwyaf yng Nghymru, gyda chyllideb o £1.87 biliwn a gweithlu o dros 19,000. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau gofal iechyd i dros 700,000 o bobl ar draws chwe sir Gogledd Cymru (Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam).

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydlynu gwaith 96 o bractisau meddygon teulu, a gwasanaethau'r GIG a ddarperir gan 78 o bractisau deintyddol ac orthodontig, 70 o bractisau optometreg ac optegwyr a 145 o fferyllfeydd yng Ngogledd Cymru.



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Hywel Dda  
University Health Board

## GWOBWR NYRSIO GOFAL SYLFAENOL A CHYMUNEDOL

Noddir gan **Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda**

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn darparu gofal iechyd i boblogaeth o tua 384,000 yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro. Mae'n darparu gwasanaethau aciwt, sylfaenol, cymunedol, iechyd meddwl ac anabledau dysgu mewn amrywiaeth o leoliadau gan gynnwys ysbytai cyffredinol a chymunedol, canolfannau iechyd, cyfleusterau gofal iechyd cymunedol ac yng nghartrefi'r cleifion eu hunain.

Mae staff nyrsio a bydwreigiaeth cofrestredig yn cyfrif am bron i draean o weithlu'r Bwrdd Iechyd ac maent yn hanfodol er mwyn dylanwadu'n gadarnhaol ar brofiad gofal iechyd cleifion ar bob lefel – o'r effaith a gânt ar bolisi ac addysg yn genedlaethol i'r gofal a ddarperir ganddynt wrth erchwyn y gwely ac, yn gynyddol, yng nghartrefi'r cleifion.



## GWOBWR GWELLA IECHYD UNIGOLION A'R BOBLOGAETH

Noddir gan **Iechyd Cyhoeddus Cymru**

Ni yw sefydliad iechyd y cyhoedd cenedlaethol Cymru. Rydym yn bodoli i helpu pawb yng Nghymru i fyw bywydau hirach ac iachach. Ynghyd â'n partneriaid, ein nod yw cynyddu disgwyliad oes iach, gwella iechyd a lles, a lleihau anghydraddoldebau i bawb yng Nghymru, nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Gyda'n gilydd, mae ein timau'n gweithio i atal clefydau, amddiffyn iechyd, darparu arweinyddiaeth system, gwasanaethau arbenigol ac arbenigedd iechyd y cyhoedd.

Ni yw prif ffynhonnell gwybodaeth, ymchwil ac arloesedd iechyd y cyhoedd, er mwyn helpu pawb yng Nghymru i fyw bywydau iachach.

Ein chwe blaenoriaeth strategol:

- Dylanwadu ar benderfyniadau ehangach iechyd
- Hyrwyddo lles meddyliol a chymdeithasol
- Hyrwyddo ymddygiad iach
- Cefnogi datblygiad system iechyd a gofal cynaliadwy sy'n canolbwyntio ar atal ac ymyrraeth gynnar
- Darparu gwasanaethau iechyd y cyhoedd rhagorol er mwyn cynyddu iechyd y boblogaeth a thegwch iechyd
- Mynd i'r afael ag effeithiau newid hinsawdd ar iechyd y cyhoedd.

## GWOBWR YMCHWIL, ARLOESED A DIGIDEIDDIO YM MAES NYRSIO

Noddir gan **Iechyd a Gofal Digidol Cymru**

Corff cenedlaethol arbenigol yw Iechyd a Gofal Digidol Cymru sy'n rhan o GIG Cymru. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â chydweithwyr yn GIG Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill i ddarparu gwasanaethau digidol a data sy'n cefnogi darpariaeth gofal iechyd a chymdeithasol yng Nghymru.

Mae gwasanaethau iechyd a gofal modern yn dibynnu ar offer digidol, data a gwybodaeth dda. Rydym yn gweithio gyda dros 100 o wasanaethau ac yn darparu rhaglenni trawsnewid digidol cenedlaethol i gefnogi hyn.

Rydym yn rhoi offer digidol i staff rheng flaen sy'n helpu i ddarparu gofal mwy diogel a mwy effeithlon. Mae hyn yn cynnwys Cofnod Gofal Nyrsio Cymru (WNCR), sydd bellach ar gael ym mhob ward cleifion mewnol cymwys ledled Cymru. Mae'r WNCR yn disodli cofnodion papur, gan wella gofal ac effeithlonrwydd trwy alluogi nyrsys i gofnodi a chael mynediad at wybodaeth cleifion wrth ochr y gwely gan ddefnyddio dyfais llechen, gliniadur neu gyfrifiadur symudol. Mae hyn yn lleihau dyblygu gwaith, yn gwella cysondeb a chyfathrebu ac yn rhyddhau amser ar gyfer gofal cleifion.

## GWOBWR NYRS GOFRESTREDIG – ANABLEDDAU DYSGU

Noddir gan **Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe**

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn darparu gofal ar gyfer tua 390,000 o bobl yn Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot gydag amrywiaeth o wasanaethau trydyddol, gan gyflogi tua 13,500 o staff. Mae ganddo dri phrif ysbyty – Treforys, Singleton a Chastell-nedd Port Talbot – ynghyd ag ysbyty cymunedol. Mae'n darparu gwasanaethau iechyd meddwl ac anableddau dysgu mewn ysbytai a lleoliadau cymunedol ac mae ganddo gyfrifoldeb am ofal iechyd sylfaenol sy'n cynnwys meddygon teulu, deintyddion, fferyllfeydd ac offthalmolegwyr.

Mae BIP Bae Abertawe yn gartref i Ganolfan Llosgiadau a Llawfeddygaeth Blastig Cymru. Mae hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â Phrifysgol Abertawe a'i Hysgol Feddygaeth, Ysgol y Gwyddorau Dynol ac Iechyd a Sefydliad Gwyddor Bywyd 1 a 2.

# NODDWYR EIN GWOBRAU



## GWOB R NYRS GOFRESTREDIG – IECHYD MEDDWL

Noddir gan **Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn cwmpasu ardaloedd Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen. Mae'n gwasanaethu poblogaeth a amcangyfrifir sydd dros 639,000 o bobl, sef tua 21% o gyfanswm poblogaeth Cymru.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu a gweithredu modelau gofal newydd ac effeithiol mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a sefydliadau trydydd sector i ymateb i anghenion newidiol pobl leol. Ei gynllun uchelgeisiol yw darparu mwy o ofal yn nes at gartrefi pobl, creu rhwydwaith o ysbytai lleol sy'n darparu gwasanaethau diagnostig a thriniaethau arferol a chanoli gwasanaethau gofal arbenigol a chritigol mewn un man yn Ysbyty Athrofaol y Faenor, a agorodd ym mis Tachwedd 2020.

Mae BIP Aneurin Bevan wedi ennill enw da am fod yn sefydliad arloesol sydd â gwerthoedd cryf o gefnogi a datblygu staff. Mae nyrsys a bydwagedd ar bob lefel yn cael eu hannog a'u cefnogi'n gadarnhaol i arddangos syniadau, gwasanaethau, technolegau a pholisïau da sy'n cefnogi arfer ac yn gwella gofal cleifion.



## GWOB R NYRSIO'R SECTOR ANNIBYNNOL

Noddir gan **involve Care and Support**

Mae involve Care and Support Cymru yn arbenigo mewn gofalu am oedolion ag anghenion gofal cymhleth, cyflyrau iechyd meddwl, anableddau dysgu, cyflyrau niwrolegol hirdymor ac anafiadau i'r ymennydd.

Rydym yn darparu gofal mewn 5 sir ar draws De a Gorllewin Cymru. Rydym wedi tyfu o un cartref nyrsio i ddod yn brif ddarparwr gofal yng Nghymru, gan gefnogi dros 410 o unigolion ar draws mwy na 30 o leoliadau, a chyflogi dros 1200 o gydweithwyr.

Rydym yn darparu ystod o opsiynau gofal, gan gynnwys cartrefi nyrsio, gofal preswyl a gwasanaethau byw â chymorth. Mae'r bobl rydym yn eu cefnogi yn cael eu hatgyfeirio o leoliadau cleifion mewnol a'r gymuned, yn ogystal â lleoliadau fforensig a darparwyr gofal eraill.

Rydym yn sefydliad gwobrwyedig a arweinir gan werthoedd; mae hyrwyddo caredigrwydd, cydnorthedd ac angerdd dros ofal, gyda'r bobl rydym yn eu cefnogi wrth wraidd popeth a wnawn. Cefnogir ein gweithlu i dyfu a datblygu – rydym yn gyflogwr sy'n gwrando, yn dysgu ac yn meithrin.



## GWOB R NYRSIO ARBENIGOL

Noddir gan **Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro**

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn un o sefydliadau mwyaf y GIG sy'n cyflogi 17,000 o staff, y mae 43% ohonynt ym maes nyrsio a bydwreigiaeth.

Gan wasanaethu poblogaeth leol o 500,000 mae'r Bwrdd Iechyd yn darparu ystod o wasanaethau iechyd a lles, yn amrywio o ofal sylfaenol a chymunedol i wasanaethau aciwt ac arbenigol iawn. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro hefyd yn ddarparwr gwasanaethau trydyddol ar gyfer y boblogaeth ehangach ledled Cymru gan gefnogi gwasanaethau cymhleth megis niwrowyddorau, gwasanaethau cardiaidd, neffroleg a thrawsblaniadau, Gwasanaeth Rhywedd Cymru a'r Ganolfan Trawma Mawr. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn ymfalchïo mewn arloesi ym maes gofal iechyd, gan gynnwys cynnal Gwasanaeth Genomeg Feddygol Cymru Gyfan sy'n integreiddio technolegau arloesol â darpariaeth gofal iechyd cenedlaethol i ddarparu gwasanaethau clinigol sy'n flaenllaw yn fyd-eang i boblogaeth Cymru, gan gynnwys y rhaglen DNA tiwmor cylchredol chwyldroadol QuicDNA Max a Gwasanaeth Genomeg Seiciatrig Cymru Gyfan



# NODDWYR EIN GWOBRAU

## GWOBWR GWEITHWYR CYMORTH GOFAL IECHYD

Noddir gan **Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru**



Mae Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru (NWJCC) yn falch o noddi Gwobr Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd.

Mae Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd yn chwarae rhan hanfodol yn ein gwasanaethau iechyd, gan ddarparu gofal medrus a thosturiol fel rhan o dimau amlddisgyblaeth. Mae eu cyfraniad yn helpu i sicrhau bod cleifion ledled Cymru yn derbyn y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt, bob dydd.

Mae'r NWJCC yn gweithio gyda, ac ar ran, pob un o'r saith Bwrdd Iechyd yng Nghymru. Mae ein ffocws ar gomisiynu gwasanaethau sy'n gynaliadwy, yn effeithiol, ac yn ymatebol i anghenion y boblogaeth.

Fel y comisiynydd cenedlaethol ar gyfer dros 220 o wasanaethau – gan gynnwys GIG Cymru 111, gwasanaethau ambiwlans, gofal iechyd meddwl arbenigol, a thriniaethau arbenigol iawn – mae'r NWJCC yn gweithio mewn partneriaeth â darparwyr i sicrhau bod gofal o ansawdd uchel yn cael ei ddarparu ledled y wlad.

Felly, rydym yn falch o gydnabod ymroddiad Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd yn y Gwobrau RCN Cymru hyn, y mae eu gwaith yn gwneud gwahaniaeth ystyrlon i gleifion a chymunedau ledled Cymru.

## GWOBWR ADDYSG NYRSIO

Noddir gan **Brifysgol De Cymru**



Mae'n anrhydedd i Brifysgol De Cymru (PDC) noddi'r wobwr nodedig hon. Gyda chorff myfyrwyr o tua 1,500 ar draws rhaglenni nyrsio a bydwreigiaeth, mae PDC yn chwarae rhan hollbwysig mewn siapio dyfodol y gweithlu gofal iechyd. Rydym yn gwerthfawrogi'n fawr gyfraniadau eithriadol partneriaid clinigol sy'n cefnogi ein myfyrwyr mewn lleoliadau ymarfer, ac rydym yn ymfalchïo yn y berthynas gydweithredol gref sydd gennym â darparwyr gofal iechyd. Mae llwyddiant parhaus ein rhaglenni cyn ac ôl-gofrestru yn dyst i ymroddiad ac ymrwymiad a rennir ein cydweithwyr academiaidd a chlinigol mewn darparu addysg o ansawdd uchel i'r genhedlaeth nesaf o weithwyr nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol.

## GWOBWR MYFYRIWR NYRSIO

Noddir gan **Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)**



AaGIC yw'r corff addysg a gweithlu statudol ar gyfer GIG Cymru, sy'n ymroddedig i adeiladu gweithlu medrus a chynaliadwy trwy gynllunio gweithlu strategol, addysg, hyfforddiant a thrawsnewid.

Mae nyrsys yn hanfodol i'r GIG, ac rydym yn ymfalchïo mewn *addysgu a hyfforddi'r niferoedd uchaf erioed i ddod yn Nyrsys Cofrestredig yng Nghymru*.

Ym mis Mawrth 2025, lansiodd AaGIC am y tro cyntaf y Cynllun Gweithlu Nyrsio Strategol ar gyfer Cymru 2025-2030, y disgwylir iddo *dyfu, trawsnewid a chefnogi'r gweithlu nyrsio*, er mwyn mynd i'r afael â gofynion gofal iechyd sy'n esblygu.

Yn fuan byddwn yn cyflwyno ein *Fframwaith Gyrfa Nyrsio Integredig* sy'n canolbwyntio ar y dyfodol, i gefnogi datblygiad gyrfa o lefelau Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd i Nyrsys Ymgynghorol.

Mae ein cynllun cadw nyrsys cenedlaethol, *'Cadw a Gwerthfawrogi Nyrsys o fewn y GIG yng Nghymru: Cynllun Cadw Nyrsys'*, a gychwynnwyd ym mis Rhagfyr 2023, eisoes yn cael effaith gadarnhaol ar gyfraddau trosiant ac ymddiswyddiadau nyrsio.

# NODDWYR EIN GWOBRAU



## GWOBWR NYRS GOFRESTREDIG – OEDOLION

Noddir gan **Fwrdd Iechyd Addysgu Powys**

Mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn cyflawni strategaeth uchelgeisiol a rennir ar gyfer “Powys Iach, Ofalgar” i gefnogi pobl leol i Ddechrau’n Dda, Byw’n Dda a Heneiddio’n Dda.

Mae’n gyfnod cyffrous i’r Bwrdd Iechyd wrth i ni symud ymlaen gyda’n rhaglen drawsnewid “Gwell Gyda’n Gilydd” sy’n ceisio trawsnewid sut y darperir gwasanaethau ac y gweithir mewn partneriaeth â phoblogaeth Powys.

Gan gwmpasu sir wledig fawr, mae gofal cymunedol a sylfaenol yn flaenllaw ym mhopeth a wna gan weithio’n agos gyda Chyngor Sir Powys, corff y mae’n rhannu’r un ffiniau ag ef, yn ogystal â sicrhau perthynas weithgar â’r trydydd sector a gyda darparwyr gofal eilaidd a thrydyddol yng Nghymru a Lloegr.

Mae hyn yn golygu bod gweithio ym Mhowys yn cynnig cyfle unigryw ar gyfer creadigrwydd, arloesedd ac ymreolaeth glinigol a phroffesiynol i ddarparu cymaint o ofal a chymorth integredig mor agos i’r cartref â phosibl, ac i ddatblygu llwybrau gofal gyda darparwyr cyfagos sy’n cadw cleifion yn ganolog i’r gwaith.

Ble bynnag yr ydych yn byw yng Nghymru, mae Powys o fewn cyrraedd hawdd ac rydym yn cynnig croeso cynnes i chi i’n tîm cyfeillgar.

## GWOBWR PRIF SWYDDOG NYRSIO CYMRU

Noddir gan **Brif Swyddog Nyrsio Cymru, Llywodraeth Cymru**

Mae Cyfarwyddiaeth Ansawdd a Nyrsio Llywodraeth Cymru, dan arweiniad y Prif Swyddog Nyrsio (CNO) Sue Tranka, wedi ymroi i hyrwyddo safonau uchel o ansawdd gofal iechyd, diogelwch cleifion, ac ymarfer nyrsio proffesiynol ledled Cymru. Gyda chefnogaeth y Dirprwy CNO, y Prif Swyddog Bydwreigiaeth, swyddogion nyrsio a thîm ehangach o weision sifil, mae’r gyfarwyddiaeth yn darparu arweinyddiaeth strategol ar bolisi ansawdd, nyrsio a bydwreigiaeth. Mae’n cynnig cyngor proffesiynol arbenigol i Weinidogion ac uwch swyddogion, yn cefnogi datblygiad y gweithlu, ac yn gweithredu polisiau sy’n gwella gofal cleifion, twf proffesiynol, a chynaliadwydd y gweithlu. Fel y pennaeth nyrsio a bydwreigiaeth yng Nghymru, mae’r CNO yn gosod yr agenda broffesiynol a chyfeiriad y proffesiynau hyn ar gyfer y dyfodol.

## GWOBWR NYRS Y FLWYDDYN CYMRU 2025

Noddir gan **Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre**

Mae Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yn darparu ystod o wasanaethau arbenigol lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Ein nod yw darparu gofal rhagorol, dysgu ysbrydoledig a chefnogi pobl iachach. Mae darparu gofal o ansawdd a rhagoriaeth i’n cleifion a’n rhoddwyr wrth galon ein sefydliad. Y ddau wasanaeth craidd a ddarperir gan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yw’r canlynol:

- Mae Gwasanaeth Gwaed Cymru yn chwarae rhan genedlaethol yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau gwaed a thrawsblaniadau yng Nghymru. Mae’n gweithio i sicrhau bod rhoddion gwaed a mēr esgyrn gwirfoddol yn cael eu trawsnewid yn waed a chynhyrchion gwaed diogel ac effeithiol er mwyn caniatáu i GIG Cymru wella neu achub bywydau miloedd lawer o bobl yng Nghymru bob blwyddyn. Mae gan Wasanaeth Gwaed Cymru bortffolio ymchwil sy’n tyfu.
- Mae Gwasanaeth Canser Felindre yn darparu triniaethau a gwasanaethau cancer anlwfeddygol arbenigol i bobl sy’n byw yn Ne-ddwyrain Cymru yng Nghanolfan Canser Felindre, ac o nifer o leoliadau lloeren ‘Velindre @’ ledled De-ddwyrain Cymru. Mae Gwasanaeth Canser Felindre hefyd yn darparu addysg a hyfforddiant oncoleg anlwfeddygol ar gyfer GIG Cymru, ymchwil, arloesedd a datblygiad.

Mae Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre hefyd yn lletya Technoleg Iechyd Cymru, Therapiau Uwch Cymru a Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru.





# NODDWYR EIN GWOBRAU

## Gwobrau Nyrs y Flwyddyn RCN Cymru: Blodau'r Digwyddiad

Noddir gan **Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru**

Gwasanaethau Ambiwylans Cymru (WAST) yw darparwr cenedlaethol gofal brys ac argyfwng cyn ysbyty i boblogaeth Cymru. Mae WAST yn darparu gwasanaethau cenedlaethol 999 ac 111 Cymru ac mae ganddo weithlu nyrsio cofrestredig sylweddol yn gweithio ochr yn ochr â pharafeddygon, technegwyr meddygol brys a gweithwyr cymorth gofal iechyd eraill. Mae nyrsys cofrestredig yn hanfodol i'n gweithlu, gan arwain nifer o feysydd arbenigol a chyflawni rôl annatod wrth gefnogi gofal clinigol o bell ar draws gwasanaethau 999 ac 111 Cymru. Mae WAST wedi bod yn cynyddu nifer y nyrsys a bydwagedd mewn gwyrdd, gydag arbenigwyr a chyffredinolwyr yn chwarae rhan bwysig yn ein model clinigol sy'n esblygu i ddiwallu anghenion cynyddol gymhleth cleifion sy'n aml yn ein ffonio ni pan fyddant mewn argyfwng.



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG  
Gwasanaethau Ambiwylans Cymru  
Welsh Ambulance Services  
University NHS Trust

## Gwobrau Nyrs y Flwyddyn RCN Cymru: Diodydd y Cinio

Noddir gan **Westy a Sba Holland House by Sunday Caerdydd**

Gwesty 4 seren modern wedi'i leoli ym mhrifddinas fywiog Cymru yw Gwesty a Sba Holland House by Sunday Caerdydd. Mae'n lleoliad cwbl addas ar gyfer eich anghenion busnes a hamdden, gyda'r cyfleuster cynadledda mwyaf yng Nghaerdydd â lle i hyd at 700 o westeion.



## Gwobrau Nyrs y Flwyddyn RCN Cymru: Gwobrau Pwrpasol

Mewn cydweithrediad â **Fablab Caerdydd**

Gweithdy digidol mynediad agored â dros ddegawd o brofiad yw Fablab Caerdydd, sydd wedi'i leoli ar Gampws Llandaf Prifysgol Metropolitan Caerdydd. Yn adnabyddus am ei arwyddair "Rydym yn gwneud bron unrhyw beth!", mae'n cydweithio â diwydiant a myfyrwyr ar draws disgyblaethau – o gyfathrebu graffig i ffasiwn a dylunio cynnyrch – gan ddarparu gwaith dylunio a gweithgynhyrchu arloesol. Mae RCN Cymru yn falch o fod yn bartner i dîm lleol sy'n rhannu ein gwerthoedd o greadigrwydd, cynaliadwyedd a rhagoriaeth.



## Ysgoloriaethau Nyrsio Cymru

Mae nyrsio yn yrfa sy'n gofyn am ddysgu a datblygiad gydol oes. Mae RCN Cymru yn cefnogi'r ysgoloriaethau canlynol i ddarparu cyfleoedd datblygiad proffesiynol i weithwyr nyrsio proffesiynol.

### YSGOLORIAETH NYRSIO GOFAL YR HENOED HETTIE C HOPKINS, CYMRU

Mae Ysgoloriaeth Nyrsio Gofal yr Henoed Hettie C Hopkins yn darparu ysgoloriaethau i nyrsys yng Nghymru ddilyn prosiect/cwrs ym maes gofal yr henoed.



### YSGOLORIAETH NYRSIO ALUN ISLWYN GILES, CYMRU

Mae Ysgoloriaeth Nyrsio Alun Islwyn Giles yn darparu ysgoloriaethau i nyrsys yng Nghymru i hyrwyddo gwyddoniaeth a chreffft nyrsio.



SGANIWCH YMA I ROI. DIOLCH!

## Gwobr Nyrs Gofrestredig – Plant



**RACHEL EVANS**

*Arweinydd  
Cenedlaethol ar gyfer  
Bwydo ar y Fron  
(Bydwraig), Iechyd  
Cyhoeddus Cymru*



**DR SHEILA SHEPLEY**

*Ymgynghorydd Nyrsio  
mewn Epilepsi,  
yn gweithio ar draws  
Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Betsi Cadwaladr*

Fe wnaeth Rachel sefydlu ac arwain prosiect cydweithredol uchelgeisiol a llwyddiannus i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd trwy newid normau cymdeithasol a gwella cyfraddau'r rheini sy'n bwydo ar y fron a'r achosion o fwydo ar y fron.

Mae manteision iechyd bwydo ar y fron wedi'u hen sefydlu, ond mae'r cyfraddau yn y DU yn isel, yn enwedig mewn cymunedau llai cyfoethog. Er bod cefnogaeth gan gymheiriaid yn cael ei gwerthfawrogi gan fenywod sy'n bwydo ar y fron, nid yw hynny ar ei ben ei hun yn cynyddu'r cyfraddau.

I ddechrau, targedodd brosiect Rachel ddwy gymuned oedd â lefelau isel o fwydo ar y fron, cefnogaeth annigonol ar y pryd, ac amddifadedd economaidd-gymdeithasol.

Recriwtiodd y prosiect wirfoddolwyr, sefydlodd grwpiau cymorth newydd a chryfhodd y rheini oedd eisoes yn bodoli, hyrwyddodd y Llinell Gymorth Bwydo ar y Fron Genedlaethol, a chyflwynodd gyrsiau First Milk Matters i staff nad ydynt yn gweithio ym maes iechyd gyda theuluoedd ifanc.

Llwyddodd y prosiect lle'r oedd eraill wedi methu, ac roedd Rachel yn gallu cynyddu nifer yr achosion o fwydo ar y fron mewn cymunedau yr oedd defnyddio llaeth fformiwla wedi dod yn rhan annatod o'r fwydo.

Mae Rachel wedi cyflwyno canlyniadau a gwersi'r prosiect i gydweithwyr nyrsio a bydwreigiaeth yn Iechyd Cyhoeddus Cymru a Grŵp Trawsbleidiol y Senedd ar Iechyd Menywod, a hefyd mewn cynadleddau a digwyddiadau eraill.

Mae ei gwaith wedi dangos ei hymrwymiad i hyrwyddo agenda iechyd y cyhoedd ac wedi gwneud mwy o bobl yn ymwybodol o bwysigrwydd bwydo babanod.

Noddir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Mae Sheila wedi ymroi'r rhan fwyaf o'i gyrfa 25 mlynedd i wasanaethau epilepsi yng Ngogledd Cymru, gan ddangos angerdd ac ymroddiad i ddarparu safonau uchel o ofal nyrsio, yn enwedig i bobl ifanc sy'n trosglwyddo i wasanaethau oedolion ac i famau beichiog ag epilepsi.

Gan weithio gyda niwrolegwyr, mae hi wedi sefydlu clinigau arbennig i bobl ifanc sy'n symud o ofal pediatreg, wedi datblygu rôl y Nyrs Arbenigol Epilepsi, wedi cyflwyno siart lif 'first-fit' i'w defnyddio mewn adrannau brys, ac wedi cynnal clinig epilepsi a bechiogrwydd ar y cyd yn Ysbyty Glan Clwyd er mwyn i fenywod beichiog gael dull cyson ar gyfer eu gofal epilepsi drwy gydol bechiogrwydd ac ar ôl genedigaeth.

Mae ei hangerdd dros godi ymwybyddiaeth i'w weld trwy ei gwaith cyhoeddedig, sy'n cynnwys dau lyfr, cyhoeddiadau, podlediad, a chyflwyniadau mewn cynadleddau.

Gan ganolbwyntio ar deuluoedd bob amser, roedd ei hymchwil Doethuriaeth yn seiliedig ar gyfnewid â rhieni a phlant yn eu proses o drosglwyddo i wasanaethau oedolion.

Mae Sheila wedi datblygu rôl y Nyrs Arbenigol Epilepsi yn sylweddol dros y blynyddoedd, gan feithrin perthynas gref â chleifion ledled Gogledd Cymru ac ymdrechu i ddarparu gwasanaethau hygyrch i gleifion epilepsi fyw bywyd iach.

Mae hi wedi dangos hyn trwy ei rôl addysgwr/mentora, datblygu gwasanaethau gan ddilyn llwybrau cenedlaethol, a gweithio'n agos gyda gweithwyr proffesiynol eraill, yn ogystal â chleifion a theuluoedd.



Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Betsi Cadwaladr  
University Health Board



# Gwobr Nyrsio Cymunedol a Gofal Sylfaenol



**PAULA HEYCOCK**

*Pennaeth Nyrsio,  
Gofal Sylfaenol,  
Cymunedol a Therapiau,  
Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Bae Abertawe*

Mae Paula wedi dangos arddull arwain sy'n meithrin ymdeimlad o berthyn a phwrpas a rennir trwy weithredu dull integredig chwe cham ar gyfer cynllunio'r gweithlu – creu nyrsio cymunedol cynaliadwy, ymatebol, o ansawdd uchel – wedi'i fodelu ar arfer gorau cenedlaethol.

Gan weithio gyda chydweithwyr clinigol a gweithredol, arweiniodd Paula y broses gynllunio gweithlu chwe cham, gan alinio galluedd a sgiliau staff ag anghenion newidiol cleifion ac felly sicrhau bod pob aelod o'r tîm yn cael ei ddefnyddio lle gallant gael yr effaith fwyaf uniongyrchol ar ofal cleifion ac ymyriadau cynnar.

Mae hi wedi grymuso ei staff i ehangu eu rolau i feysydd megis brysbenno teleiechyd, ymweliadau cartref ymyrraeth gynnar, ac asesiadau yn y gymuned.

O dan ei harweiniad, anogir aelodau'r tîm i wella eu sgiliau ac ymarfer ar frig eu trwyddedau proffesiynol.

Cred Paula bod cefnogi staff i dyfu ac arallgyfeirio eu galluedd nid yn unig yn fuddiol i forâl a chyfraddau cadw, ond hefyd yn gwella'r profiad i gleifion ac yn lleihau derbyniadau diangen i'r ysbyty.

Mae ei harddull arwain tosturiol wedi'i lywio gan fewnwelediadau a gafodd o gwblhau Rhaglen Arweinyddiaeth Glinigol Uwch Addysg a Gwella Iechyd Cymru: mae hi'n mentora rheolwyr nyrsio newydd, yn trefnu gweithdai lles myfyriol, ac yn modelu dull arweinyddiaeth sy'n seiliedig ar barch, empathi, a gwneud penderfyniadau ar y cyd.



**HAYLEY TAYLOR**

*Prif Nyrs ar gyfer  
Cardioleg Cymunedol,  
Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Bae Abertawe*

Mae dull arloesol Hayley wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol ym mywydau pobl sy'n byw gyda methiant y galon.

Mae hi wedi dangos angerdd ac ymrwymiad, gan arwain gwaith sydd nid yn unig yn gwella gofal i gleifion trwy hyrwyddo ethos 'byw'n dda', ond sydd hefyd yn cefnogi ac yn ysbrydoli'r tîm o'i chwmpas.

Mae ei gwybodaeth glinigol arbenigol, ynghyd â dull sy'n canolbwyntio'n fawr ar yr unigolyn ac ymarfer cyfoes, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, yn sicrhau bod cleifion yn cael eu trin ag urddas, empathi a pharch.

Mae Hayley wedi dangos gallu rhagorol i gydweithio ac yn aml hi yw'r ddolen hollbwysig rhwng gofal sylfaenol ac eilaidd i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd – gan ddarparu parhad, sicrwydd ac addysg achub bywyd i gleifion a theuluoedd.

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf mae Hayley wedi arwain nifer o fentrau sydd wedi trawsnewid gwasanaethau methiant y galon cymunedol yn y rhanbarth.

Mae peth o waith diweddaraf Hayley yn cynnwys mentrau gwella ansawdd, datblygiadau digidol, a gweithredu llwybr diwedd oes mewn cydweithrediad â thimau gofal lliniarol arbenigol, gan gynnwys sgysiau cynllunio gofal uwch a gofal yn y dyfodol.

Mae Hayley hefyd yn eiriolwr angerddol dros addysg a thegwch, gan gyflwyno sesiynau hyfforddi'n rheolaidd i feddygfeydd teulu, nyrsys cymunedol, a staff cartrefi gofal er mwyn gwella'r gallu i adnabod a rheoli methiant y galon yn gynnar yn y gymuned. Mae Hayley yn arweinydd clwstwr ac yn croesawu'r cyfle i gael ei chynnwys mewn mentrau cydweithio clwstwr lleol.

Noddir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda



**GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES**

Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Hywel Dda  
University Health Board



# Gwobr Gwella Iechyd Unigolion a'r Boblogaeth



**CINDY COURTNEY**

*Pennaeth Nyrsio,  
Gwasanaethau Iechyd  
Meddwl Plant a Phobl Ifanc  
Rhanbarthol ac Arbenigol,  
Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Betsi Cadwaladr*



**RHIANYDD  
DAVEY**

*Cydlynnydd Imiwneiddio,  
Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Cwm Taf Morgannwg*

Dangosodd Cindy rinweddau arweinyddiaeth eithriadol yn y gwaith, a arweiniodd at ailgynllunio gwasanaethau i wella profiad a chanlyniadau plant a phobl ifanc sy'n defnyddio Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc ar adeg o argyfwng iechyd meddwl.

Defnyddiodd lais plant a phobl ifanc ym mhob cam i gynllunio dewis arall mwy diogel a mwy effeithiol yn lle derbyn i'r ysbyty, a oedd yn diwallu eu hanghenion yn well.

Ei gweledigaeth ar gyfer Dewis Amgen i Dderbyn i'r Ysbyty (A2A) oedd mynd i'r afael â'r heriau y mae plant a phobl ifanc, a rhieni/gofalwyr, yn eu profi pan fyddant angen cymorth brys yn ystod argyfyngau iechyd meddwl – er enghraifft, trwy osgoi amgylcheddau megis adrannau brys, a all gynyddu lefelau gofid ymhellach.

Yn dilyn cynnig llwyddiannus i Lywodraeth Cymru, dyfarnwyd cyllid i Cindy ddatblygu a chyflawni'r ganolfan argyfwng gymunedol arfaethedig, fel y gallai plant a phobl ifanc gael mynediad at ymyriadau argyfwng mewn lle mwy amserol, diogel a chyfforddus.

O dan amodau'r cyllid, roedd yn rhaid i'r ganolfan fod yn weithredol o fewn y flwyddyn ariannol. Aeth Cindy y tu hwnt i'r disgwyl i yrru'r prosiect yn ei flaen tra'n sicrhau bod ansawdd a safonau'n cael eu cynnal.

Aeth y ganolfan A2A yn fyw ddiwedd mis Rhagfyr 2024, ac mae dadansoddi data ac adborth wedi dangos bod y llwybrau gofal newydd yn cyflawni eu nodau.

Datblygodd Rhianydd gynllun arloesol syml ond hynod effeithiol – cerdyn post gan fydwraig – sydd wedi cynyddu nifer y menywod beichiog sy'n cael eu brechu.

Cafodd y syniad ei greu yn 2023, yn dilyn archwiliad blynyddol o 'bwynt cyflenwi' mamolaeth, pan welodd Rhianydd ostyngiad pryderus yng nghyfraddau brechiadau ymhlith darpar famau. Yn gyntaf, dyluniodd boster i'w ddefnyddio ar gyfryngau cymdeithasol, ac yna cerdyn post personol y gallai bydwragedd ei roi i fenywod beichiog yn eu hapwyntiad cynnedigol 16 wythnos.

Roedd y cerdyn post dwyieithog yn cynnwys neges am werth a diogelwch brechlynnau yn ystod beichiogrwydd, cod QR yn cysylltu â gwefan Brechiadau yn ystod Beichiogrwydd Iechyd Cyhoeddus Cymru, a lle i fydwraig lofnodi – oherwydd teimlwyd bod hyn yn gymeradwyaeth werthfawr a dibynadwy.

Croesawodd timau bydwreigiaeth gerdyn post Rhianydd, a gafodd ei dreialu mewn ardal lle'r oedd y nifer a gafodd y brechlyn wedi bod yn is. Mae gwerthusiad cychwynnol yn dangos cynnydd yn nifer y menywod a gafodd y brechlyn pertussis a chynnydd sylweddol yn nifer y menywod a gafodd y brechlyn fflw.

Dangosodd arolwg o gydweithwyr ym maes bydwreigiaeth eu bod yn teimlo ei bod yn ffordd gyflym a hawdd o rannu gwybodaeth seiliedig ar dystiolaeth ac yn ddull atgoffa defnyddiol ar gyfer sgwrs am fuddion imiwneiddio yn ystod beichiogrwydd.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru bellach wedi dylunio cerdyn post tebyg i'w ddefnyddio ledled Cymru.

Noddir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru





# Gwobr Ymchwil, Arloesi a Digiddeiddio mewn Nyrsio



**VICTORIA  
HAYMAN-TEAR**

*Uwch Nyrs,  
Bwrdd Iechyd  
Prifysgol Caerdydd  
a'r Fro*

Mae Vicki wedi arwain trawsnewidiad digidol sydd wedi ailddiffinio gofal clwyfau yn y Bwrdd Iechyd, gan ddarparu gofal mwy diogel, mwy effeithlon, ac sy'n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn.

Fel yr arweinydd clinigol ar gyfer cyflwyno'r ap digidol Healthy.io Minuteful for Wound ledled Caerdydd a'r Fro, arweiniodd Vicki y gwaith o fabwysiadu technoleg delweddu clwyfau sy'n cael ei phweru gan AI – gan ddisodli asesiadau papur gyda data cyson, cywir, amser real.

Mae hyn wedi golygu y gellir adnabod clwyfau sy'n dirywio yn gynharach, gwella cynllunio gofal, a lleihau dyblygu gwaith ar draws gwasanaethau yn sylweddol. Mae cysylltu nyrsio cymunedol a gofal sylfaenol trwy ddata clwyfau a rennir yn enghraifft gyntaf o hyn yn y DU.

Mae wedi arbed bron i 2.5 cyfwerth ag amser llawn mewn amser nyrsio yn uniongyrchol, gwella cyfraddau iacháu clwyfau, lleihau derbyniadau ysbyty y gellir eu hosgoi, a thrawsnewid sut mae gwasanaethau'n cael eu darparu – wedi'i alinio'n llawn â pholisïau Llywodraeth Cymru.

Mae ei gwaith hefyd wedi adfer urddas i gleifion, gan eu grymuso gyda'r gallu i olrhain yn weledol eu hiachâd eu hunain, ac mae ganddo'r potensial i gael ei addasu ar draws disgyblaethau nyrsio.

Mae Vicki yn lledaenu'r wybodaeth, ar ôl cyflwyno'r gwaith hwn i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, Cynhadledd British Journal of Nursing Wound, ac i uwch arweinwyr gan gynnwys Dirprwy Brif Swyddog Nyrsio Cymru. Mae ei gwaith hefyd yn rhan o astudiaeth ymchwil ethnograffig barhaus mewn partneriaeth â Phrifysgol Metropolitan Caerdydd.



**FFION PURSGLOVE**

*Nyrs Arbenigol Rheoli  
Meddyginiaethau, Bwrdd  
Iechyd Prifysgol  
Betsi Cadwaladr*

Defnyddiodd Ffion ei chreadigrwydd a'i gwybodaeth i arwain datblygiad platfform cwbl ddigidol ar gyfer rheoli meddyginiaethau, gan roi sicrwydd llywodraethu cadarn yn ymwneud â chymhwysedd a hyfforddiant presgripsiynwyr annibynnol – y cyntaf o'i fath yng Nghymru.

Mae presgripsiynwyr annibynnol yn cynnwys nyrsys, fferyllwyr, gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd, a gwyddonwyr iechyd, ac maent yn chwarae rhan hollbwysig mewn sicrhau bod gan gleifion fynediad amserol at feddyginiaethau.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cyflogi dros 700 o bresgripsiynwyr annibynnol, a disgwylir i'r nifer hwn godi'n sylweddol gyda'r symud cenedlaethol tuag at ymgorffori presgripsiynu annibynnol mewn hyfforddiant israddedig. Wrth i nifer y presgripsiynwyr annibynnol gynyddu, felly hefyd y risg a achosir gan ddulliau llywodraethu a sicrwydd hen ffasiwn.

Golygodd dyfeisgarwch Ffion y defnyddiwyd systemau presennol i adeiladu'r gronfa ddata newydd, gan arwain at ddim cost datblygu ychwanegol. Cydweithiodd ag arbenigwr digidol i ddatblygu datrysiad digidol pwrpasol i ddisodli system â llaw oedd yn hen ffasiwn.

Sicrhodd ei hysgogiad a'i phenderfyniad fod BIP Betsi Cadwaladr wedi arwain y ffordd. Nawr mae byrddau iechyd eraill ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru yn edrych i weithredu datrysiadau tebyg. Yn ystod trafodaeth anffurfiol ddiweddar gyda Llywodraeth Cymru, nodwyd y fenter fel datblygiad arwyddocaol a groesewir.

Noddir gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru



**GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES**

Iechyd a Gofal  
Digidol Cymru  
Digital Health  
and Care Wales

# Gwobr Nyrs Gofrestredig – Anableddau Dysgu



**ZOE DOLMAN**

*Uwch Nyrs Arbenigol  
Ymddygiad, Bwrdd  
Iechyd Prifysgol Betsi  
Cadwaladr*

Mae Zoe yn arwain gydag uniondeb ac arloesedd yn ei rôl yn cefnogi pobl ag anghenion ymddygiad cymhleth.

Gan ganolbwyntio ar unigolion, nid problemau, mae'n trawsnewid gwasanaethau, yn grymuso timau, ac yn cyfoethogi bywydau.

Mae Zoe wedi pontio gwasanaethau cymunedol a chleifion mewnol, wedi cryfhau cydweithio ar draws timau, wedi gwella parhad gofal ac wedi gwella canlyniadau i gleifion. Mae ei gallu i adeiladu ymddiriedaeth a meithrin cydberthnasoedd proffesiynol yn dangos ei harweinyddiaeth a'i charedigrwydd.

Mae ei gwaith presennol yn cynnwys arloesi integreiddiad y model Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol (PBS) ar draws gwasanaethau – dull trawsnewidiol sy'n gwella ansawdd bywyd unigolion sydd ag anableddau dysgu.

Mewn un achos diweddar, fe wnaeth ymyrraeth Zoe atal dyn ifanc oedd â hanes o drawma a heriau ymddygiad cymhleth rhag cael ei symud i fodel gofal mwy diogel, gan newid trywydd bywyd y dyn ifanc hwn. Trwy egwyddorion PBS, arweiniodd Zoe y tîm mewn nodi rhwystrau i gefnogaeth effeithiol, mynd i'r afael ag ofnau staff, a meithrin diwylliant o empathi a hyder. Galluogodd ei charedigrwydd greddfol, ynghyd ag arbenigedd clinigol, y tîm i ail-ymgysylltu'r unigolyn â gweithgareddau cymunedol ystyrlon.

Mae Zoe yn hyrwyddo cymryd risgiau cadarnhaol, yn cefnogi datblygiad staff, ac yn sicrhau bod pob ymyrraeth wedi'i seilio ar dystiolaeth, diogelwch a pharch.



**RICHARD MORGAN**

*Nyrs Anabledd Dysgu  
Cymunedol,  
Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Hywel Dda*

Mae Richard wedi dangos ymroddiad rhagorol a sgiliau arweinyddiaeth clir, gan gael effaith gadarnhaol ar fywydau pobl ag anableddau dysgu, teuluoedd a gofawyr.

Drwy gydol ei amser ar Dîm Nyrsio Anabledd Dysgu Caerfyrddin, mae wedi mynd y tu hwnt i'r disgwyl yn gyson – bob amser yn hyblyg yn ei ddull, gan greu amser i gefnogi ei gydweithwyr a chreu amgylchedd gwaith cadarnhaol a chefnogol.

Mae Richard bob amser yn barod i ddatblygu. Tra'n gweithio'n llawn amser yn y tîm, mae hefyd yn canolbwyntio ar ei ddatblygiad proffesiynol trwy ei radd meistr mewn ymarfer proffesiynol ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i wella ansawdd ac effeithiolrwydd dulliau yn ymarferol.

Er gwaethaf heriau ar draws y gwasanaeth iechyd – gyda galw cynyddol, prinder staff, a chymhlethdod darparu gofal mewn ardaloedd gwledig – mae'n sicrhau ac yn cynnal gofal o ansawdd uchel i'r bobl y mae'n eu cefnogi.

Mae hyn yr un mor berthnasol i lesiant staff, lle mae ei ddull tosturiol yn helpu i hybu moral ac atal llosgi allan.

Mae Richard wedi cael effaith enfawr nid yn unig ar y bobl y mae'n eu cefnogi, lle bu nifer o ganlyniadau iechyd cadarnhaol, ond hefyd ar y tîm ehangach, sydd bob amser yn gwybod ei fod yn bresennol, yn dawel, ac yn hawdd sgwrsio ag ef.

Noddir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe



**GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES**

Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Bae Abertawe  
Swansea Bay University  
Health Board



## Gwobr Nyrs Gofrestredig – Iechyd Meddwl



**LISA PAYNE**  
*Rheolwr Ward ar  
gyfer Iechyd Meddwl  
Oedolion Hŷn  
Casnewydd, Bwrdd  
Iechyd Prifysgol  
Aneurin Bevan*

Mae Lisa yn arweinydd gweladwy a chefnogol iawn sydd wedi'i disgrifio'n aml gan deuluoedd fel presenoldeb sefydlog a thosturiol yn ystod rhai o gyfnodau anoddaf eu bywydau.

Fel Rheolwr Ward Sycamorwydden, Uned Iechyd Meddwl Oedolion Hŷn sy'n arbenigo mewn asesu a gofalu am ddementia, mae ei hymroddiad wedi arwain at ddiwylliant o ragoriaeth sydd nid yn unig o fudd i'w chleifion a'i staff ond sydd hefyd wedi cael ei gydnabod gan dimau a gweithwyr proffesiynol eraill ar draws y gwasanaeth.

Mae Lisa yn ysgogi staff i ddefnyddio dulliau creadigol wrth ddarparu rhyngweithiadau unigol – megis cerddoriaeth, sgwrs, ac ysgogiad synhwyraidd – sy'n gwneud gwahaniaeth amlwg i lesiant cleifion.

Mae ei gofal yn ymestyn yn yr un modd i'w staff: gan gydnabod y gofynion emosiynol sydd arnynt, mae hi'n blaenoriaethu lles staff fel rhan graidd o'i harweinyddiaeth, gan sicrhau bod gan bawb amser wedi'i ddiogelu i drafod sut maent yn teimlo, nodi unrhyw gefnogaeth y gallent fod ei hangen, a myfyrio mewn lle diogel.

Mae hi'n adnabyddus am ei dull arwain trwy esiampl ac mae bob amser yn cymryd amser i wrando ac eiriol dros yr hyn sy'n iawn i staff a chleifion.

Mae Lisa wedi cyflwyno a chynnal safonau cyson mewn diogelwch meddyginiaethau, atal heintiau a lleihau cwympiadau, gydag archwiliadau rheolaidd a gwelliant parhaus wedi'u hymgorffori ym mhrosesau'r ward.



**TANYA THOMAS**  
*Arweinydd Tim ar  
gyfer  
Gwasanaethau  
Iechyd Meddwl  
Plant a Phobl  
Ifanc, Hwb  
Noddfa,  
Bwrdd Iechyd  
Addysgu  
Powys*

Mae gwaith Tanya mewn helpu i sefydlu ac arwain Hwb Argyfwng Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc ym Mhowys wedi arwain at welliannau sylweddol yng ngofal pobl ifanc sy'n cael argyfyngau iechyd meddwl.

Mae hi wedi dangos sgiliau arweinyddiaeth rhagorol, gan greu gweledigaeth gyffredin i gefnogi pobl ifanc i deimlo eu bod yn cael eu clywed ac i gael mynediad at wasanaethau priodol mewn modd amserol.

Mae Tanya wedi bod yn allweddol o'r cychwyn cyntaf, gan recriwtio staff a gweithio ochr yn ochr â'r adran ystadau i sicrhau y byddai'r Hwb newydd yn darparu lleoliad mor groesawgar â phosibl i gynnig asesiadau, cefnogaeth a thriniaeth i bobl ifanc hyd at 18 oed.

Mae'r data hyd yn hyn yn siarad drosto'i hun, gyda gostyngiad o 25% yn nifer y bobl ifanc ym Mhowys sy'n gorfod mynd i'r ysbyty oherwydd pryderon iechyd meddwl, ac adborth rhagorol gan bobl ifanc a'u teuluoedd.

Mae Tanya yn arwain trwy esiampl ac mae bob amser wrth law i gynnig cefnogaeth a chynghor. Mae'n parhau i weithio gyda phobl ifanc ac nid yw byth yn petruso rhag cymryd rhan i gefnogi'r rheini sydd fwyaf angen help.

Mae Tanya bob amser yn rhoi blaenoriaeth i fuddiannau'r cleifion a bydd yn mynd y tu hwnt i'r disgwyl i sicrhau nid yn unig bod eu hanghenion iechyd meddwl yn cael eu diwallu, ond bod pob agwedd ar eu bywydau yn cael eu cefnogi.

Noddir gan **Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**



Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Aneurin Bevan  
University Health Board



# Gwobr Nyrsio'r Sector Annibynnol



**KEVIN JONES**

*Rheolwr Cofrestredig,  
Cartref Nyrsio Bryn  
Marl a Phennaeth  
Llywodraethu a  
Chydymffurfiaeth ar  
gyfer Vshan Care Ltd*



**VICKI TRAVERS**

*Rheolwr Cofrestredig,  
Cartref Nyrsio  
Tan-Yr-Allt House*

Mae Kevin yn arweinydd nyrsio eithriadol sy'n dangos cynhesrwydd, arbenigedd clinigol, ac ymrwymiad mawr i urddas a lles preswylwyr.

Mae'n sicrhau nad yw preswylwyr yng Nghartref Nyrsio Bryn Marl yn cael eu trin fel 'achosion' neu 'ddefnyddwyr gwasanaeth' ond yn cael eu cydnabod wrth eu henw, eu stori, a'r hyn sydd bwysicaf iddynt – boed hynny'n golygu sicrhau bod pen-blwydd yn cael ei ddathlu yn union fel yr oedd ddegawdau yn ôl neu reoli anghenion iechyd cymhleth gydag arbenigedd.

Mae teuluoedd yn aml yn dweud eu bod yn teimlo tawelwch meddwl pan fyddant yn cerdded trwy'r drws.

Gan ddefnyddio arfer gorau cenedlaethol, mae Kevin wedi gweithredu systemau sy'n codi safonau tra'n cadw caredigrwydd a pherthynas ystyrlon yn ganolog.

Cyflwynodd gofnodion cleifion electronig flynyddoedd cyn iddynt ddod yn rhywbeth arferol, gan sicrhau bod pawb sy'n gysylltiedig â gofal preswlydd wedi'u halinio, eu hysbysu, a'u harwain gan nodau a dewisiadau pob person.

Mae Kevin yn arwain prosiectau rhyng-genhedlaeth bywiog gydag ysgolion lleol, yn cynnal diwrnodau agored, ac yn hyrwyddo fforymau preswylwyr. Mae ei fodel 'Fe Ddywedoch Chi, Fe Wnaethon Ni' yn sicrhau bod pobl yn teimlo eu bod yn cael eu clywed, eu parchu, a'u grymuso.

Arweiniodd ei effaith ym Mryn Marl at benodiad haeddiannol yn goruchwyllo llywodraethu a chydymffurfiaeth ar draws ail gartref nyrsio.

Y tu hwnt i'r cartref, mae Kevin yn eiriolwr angerddol dros y sector annibynnol a nyrsys tramor.

Mae Vicki yn enghraifft ragorol o arweinyddiaeth, tosturi ac ymroddiad ym mhob agwedd ar ei rôl.

Mae hi wedi ymrwymo i sicrhau bod y bobl a gefnogir yn Cartref Nyrsio Tan-Yr-Allt House – a'u teuluoedd – yn cymryd rhan weithredol mewn cynllunio gofal, ac i wneud y cartref yn lle o gysur a pherthyn gwirioneddol.

Mae hi wedi meithrin perthynas gydweithredol â'r feddygfa Meddyg Teulu leol, gan sicrhau adolygiadau wythnosol gyda'r ymarferydd nyrsio uwch ac atgyfeiriadau amserol at y Meddyg Teulu.

Mae'r dull rhagweithiol hwn wedi lleihau derbyniadau i'r ysbyty yn sylweddol ac wedi galluogi ymyriadau cynnar, gan sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i'r rheini sydd yn ei gofal.

Dechreuodd Vicki ei gyrfa yn 16 oed fel cynorthwydd gofal cyn cwblhau ei gradd nyrsio. Ers hynny, mae hi wedi dangos addasrwydd, gwydnwch ac awydd parhaus i dyfu'n broffesiynol.

Dros y blynyddoedd, mae hi wedi croesawu nifer o newidiadau, gan ddatblygu cyfoeth o arbenigedd clinigol a rheoli.

Yn fwyaf diweddar cyflwynodd sawl system newydd, gan gynnwys cadw cofnodion electronig, rheoli risg, rheoli dysgu, rhestru dyletswyddau, a phlatformau rheoli pobl, ac mae hi wedi rhagori wrth eu rhoi ar waith.

Mae Cartref Nyrsio Tan-Yr-Allt House yn gyson ar frig y cardiau sgorio mewnol, ac mae hi'n rhannu ei llwyddiant a'i harferion gorau yn frwdfrydig gyda chyd-reolwyr cartrefi eraill.

Noddir gan **involve Care and Support**

**involve**  
Care & Support



## Gwobr Nyrsio Arbenigol



**TRACY BALE**

*Nyrs Ymgynghorol ar  
gyfer Dermatoleg,  
Bwrdd Iechyd  
Prifysgol Aneurin  
Bevan*

Tracy yw'r Nyrs Ymgynghorol Dermatoleg gyntaf yng Nghymru ac mae wedi hyrwyddo anghenion ei chleifion a statws nyrsio dermatoleg yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Yn ymroddedig i'w harbenigedd, mae hi'n arloesol, yn frwdfrydig ac wedi ymrwymo i eirioli dros gleifion, gan chwilio'n barhaus am ffordd o wella'r gofal a'r gwasanaeth y mae ei chleifion yn ei dderbyn.

Mae Tracy yn ymgorffori'r safonau uchaf ym maes nyrsio dermatoleg trwy ofal clinigol eithriadol, arweinyddiaeth arloesol, addysg effeithiol, ymchwil gadarn, ac eiriolaeth strategol. Mae ei gwaith wedi gwella canlyniadau cleifion a datblygiad nyrsio dermatoleg yn sylweddol.

O dan ei harweinyddiaeth, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan sydd â'r unig wasanaeth acne dan arweiniad nyrsys yng Nghymru, yn darparu hyfforddiant a goruchwyliaeth i staff meddygol iau a lleihau amseroedd aros o 58 wythnos i 40 wythnos mewn 18 mis.

Mae hi wedi codi proffil llais nyrsio dermatoleg – fel ymchwilydd gweithredol a phrif ymchwilydd, mae hi hefyd wedi cyfrannu at sylfaen dystiolaeth ar gyfer gofal cleifion dermatoleg. Fel addysgwraig ymroddedig mae hi'n chwarae rhan ganolog mewn hyrwyddo dermatoleg, gan gynnwys cadeirio a rhoi cyflwyniadau mewn fforymau cenedlaethol dylanwadol.

Fel arweinydd rhagorol, mae Tracy yn defnyddio ei phrofiad mewn rolau nyrsio uwch, gan ddangos arweinyddiaeth gref mewn sawl maes, a chaiff ei chydabod fel ffigur allweddol ym maes dermatoleg ar lefelau rhanbarthol a chenedlaethol.

Noddir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro



**ANNIE CLOTHIER**

*Nyrs Glinigol Arbenigol  
Fasgwlaidd,  
Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Aneurin Bevan*

Mae Annie wedi ymroi nid yn unig i'w chleifion a'i chreffft ond hefyd i sicrhau bod nyrsio fasgwlaidd yn parhau i dyfu ac esblygu fel arbenigedd.

Mae ei hymarfer clinigol arbenigol wedi cael effaith nid dim ond o fewn y Bwrdd Iechyd ond ledled Cymru ac ar lefel y DU.

Mae cleifion fasgwlaidd ymhlith y rhai mwyaf cymhleth, gan fod llawer yn byw gyda nifer o gyflyrau hirdymor, dibyniaethau, ac anghenion gofal cymdeithasol sylweddol. Mae Annie yn diwallu pob un ohonynt gyda thosturi, tegwch, a dull addasadwy. Mae ei gofal bob amser yn unigol, yn empathig, ac wedi'i ategu gan sgil glinigol eithriadol.

Mae hi wedi bod yn allweddol mewn siapio gwasanaethau fasgwlaidd ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, yn enwedig yn ystod y cyfnod trawsnewid gwasanaethau aciwt i Gaerdydd a'r Fro. Er gwaethaf tîm bach, heriau staffio, ardal ddaearyddol fawr, a chymhlethdodau darparu gofal mewn gwasanaeth rhanbarthol, mae Annie wedi gwella canlyniadau cleifion tra'n arwain arloesiadau sy'n gwthio ffiniau nyrsio.

Yn ddiweddar, sicrhodd gyllid gan Lywodraeth Cymru i arwain y prosiect ymchwil eiddo deallusol cyntaf i ofal clwyfau dan arweiniad nyrsys yn unig ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, a hi yw Cadeirydd presennol y grŵp cenedlaethol Legs Matter. Cydnabuwyd ei heffaith ymhellach pan gafodd ei gwahodd i'r Grŵp Seneddol Trawsbleidiol ar Glefydau Fasgwlaidd a Gwythiennol.



**GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES**

Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Caerdydd a'r Fro  
Cardiff and Vale  
University Health Board



# Gwobr Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd

## LYNDA JONES a SHONA LEWIS

*Gweithwyr  
Cymorth  
Gofal Iechyd,  
Bwrdd Iechyd  
Prifysgol  
Hywel Dda*



Dangosodd Lynda a Shona fenter drwy gyflwyno troli atal lleithder – dyfais arloesol sydd wedi gwella gofal cleifion ac wedi lleihau achosion o friwiau lleithder yn yr Uned Gofal Dwys (ICU) yn Ysbyty Glangwili.

Gan sylwi bod achosion cynyddol o ddifrod lleithder ymhlith cleifion ICU, gwnaethant nodi nad oedd hi'n hawdd cael gafael ar hufenau rhwystr – wedi'u cloi mewn un drôr – ac nad oedd bob amser yn glir pa hufenau oedd fwyaf priodol ar gyfer pob achos.

Gwnaethant gyflwyno troli lleithder a bwrdd addysg, gan ddefnyddio system goleuadau traffig i nodi gwahanol lefelau o ddifrifoldeb mewn briwiau lleithder – o atal briwiau i achosion ysgafn, cymedrol, a difrifol – ac eglurwyd y cynhyrchion mwyaf priodol a sut y dylid eu defnyddio.

Sicrhodd y prosiect fod cleifion yn derbyn y cynhyrchion cywir ar yr amser cywir, gan ddarparu safon uchel o ofal cleifion a hefyd yn addysgu gweddill y tîm amlddisgyblaethol.

O fewn y pedwar mis cyntaf, gostyngodd nifer yr achosion yn yr uned o 20 i chwech, ac mae'r system newydd wedi cael adborth rhagorol gan staff a chleifion. Mae bellach wedi'i rhoi ar waith ledled y bwrdd iechyd, gyda'r potensial i'w chyflwyno ledled Cymru.

## AMANDA STRANGE

*Ymarferydd Cynorthwyol ar  
gyfer Gwasanaeth Mapio,  
Addysg a Gofalwyr,  
Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Aneurin Bevan*



Drwy gydol ei gyrfa 39 mlynedd fel Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd, mae Amanda wedi dangos ymroddiad, tosturi, ac ymdrech di-ildio am ragoriaeth, yn enwedig i gleifion sy'n cael gofal dementia.

Dechreuodd ar ei thaith GIG yn Ysbyty Seiciatrig Pen-y-Fal, gan ei pharatoi ar gyfer gyrfa a ddiffiniwyd gan ymrwymiad diwyro.

Un o gyfraniadau mwyaf arwyddocaol Amanda at wella ansawdd i gleifion oedd ei rhan mewn sefydlu a datblygu'r Gwasanaeth Asesu Cof cychwynnol yng Ngwent yn gynnar yn y 2000au.

Mae hi'n parhau i groesawu heriau newydd, ac yn 2023 daeth yn Ymarferydd Cynorthwyol Band 4 cyntaf mewn Iechyd Meddwl Oedolion Hŷn yng Ngwasanaeth Mapio, Addysg a Gofalwyr Gwent gyfan.

Mae hi wedi cael adborth hynod gadarnhaol gan staff ac mae'n eiriolwr angerddol dros ddatblygiad proffesiynol parhaus.

Mae ei rôl yn cynnwys dysgu yn y dosbarth, goruchwyliaeth hanfodol, a chefnogaeth i staff i gwblhau eu dysgu seiliedig ar gymhwysedd.

Gwnaeth ei hymrwymiad i gefnogi nyrsys tramor, gan eiriol dros eu lles a'u cynhwysiant, argraff arbennig ar banel y beirniaid.

Mae hi hefyd yn parhau i fod wedi ymrwymo'n llwyr i'w datblygiad proffesiynol ei hun a gwella ei sgiliau fel y gall barhau i wella ansawdd y gofal y mae'n ei ddarparu i gleifion.

Noddir gan Gyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Cyd-bwyllgor  
Comisiynu  
Joint Commissioning  
Committee



## Gwobr Addysg Nyrsio



**CLAIRE  
LOVERIDGE**

*Addysgwr Ymarfer,  
Bwrdd Iechyd  
Prifysgol  
Caerdydd a'r Fro*

**Arweiniodd Claire fenter bwysig i sefydlu dull strwythuredig a safonol ar gyfer hyfforddi ac asesu ym maes Nyrsio Plant Cymunedol ledled Cymru.**

Mae hyn wedi arwain at welliannau mewn canlyniadau cleifion, morâl staff, cymhwysedd a hyder clinigol, a llywodraethu clinigol.

Yn flaenorol roedd hyfforddiant yn ad hoc, yn hen ffasiwn, ac yn anghyson ar draws byrddau iechyd, gan arwain at oedi mewn gofal, amrywiaeth mewn safonau, a methiannau o ran cyfathrebu rhwng gweithwyr proffesiynol a theuluoedd.

Roedd angen sicrwydd ar Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, sy'n darparu gwasanaethau trydyddol arbenigol i lawer o blant a phobl ifanc ledled De Cymru, fod rhieni, gofalmwr, a gweithwyr proffesiynol iechyd a rhai nad sy'n weithwyr iechyd yn derbyn hyfforddiant ac asesiad cyson mewn sgiliau clinigol penodol.

Ymatebodd Claire gyda chynllun gwella llawn gweledigaeth, a arweiniodd at lansio rhaglen hyfforddi beilot ac yna creu model hyfforddi i'w raeadu.

Cydlunodd ddiwrnod hyfforddi ac asesu Cymru gyfan, datblygodd lwybrau cymhwysedd ar gyfer sgiliau clinigol, a chreu rhwydwaith cenedlaethol o weithwyr rhaeadru hyfforddedig. Mae'r gweithwyr rhaeadru hyn bellach yn gwasanaethu fel y pwyntiau cyswllt cyntaf ar gyfer anghenion hyfforddi ym mhob bwrdd iechyd ac yn derbyn diweddariadau ac asesiadau blynyddol er mwyn cynnal safonau uchel.

Mae Claire wedi rhagori'n fawr ar ddisgwyliadau ei rôl, ac mae ei gwaith wedi creu model y gellir ei atgynhyrchu ar gyfer pob sgil glinigol ac mewn rhanbarthau eraill.



**CATHERINE  
NORRIS**

*Pennaeth Nyrsio,  
Prifysgol Abertawe*

**Mae Cath wedi gweithio ym Mhrifysgol Abertawe ers dros 20 mlynedd, yn dilyn gyrfa lwyddiannus yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, ac mae wedi arwain prosiectau arloesol a chreadigol yn ystod cyfnod heriol i brifysgolion.**

Yn flaenorol yn nyrs llosgiadau a gofal critigol, cafodd ei hysbrydoli i symud i faes addysg nyrsio gan yr awydd i helpu, cefnogi ac addysgu ein nyrsys y dyfodol. Cafodd ei rhinweddau arweinyddiaeth eu cydnabod yn gyflym, gan arwain at ei dyrchafiad i fod yn Bennaeth Nyrsio yn 2021.

Mae Cath wedi bod yn allweddol mewn datblygu sawl rhaglen nyrsio cyn-gofrestru llawn amser a rhan-amser newydd, ac arweiniodd ddatblygiad rhaglenni rhan-amser a gradd Meistr mewn Gwyddoniaeth i gefnogi ehangiad mynediad.

Gan ei bod bob amser yn ymwybodol o'r angen i nyrsys sy'n ymarfer barhau â'u haddysg, mae hi hefyd wedi cefnogi datblygiad rhaglenni datblygiad proffesiynol parhaus ac ôl-radd.

Mae Cath yn arddangos ystod o rinweddau arweinyddiaeth ac mae wedi creu amgylchedd cynhwysol a chefnogol i'w chydweithwyr, gan gadw lles myfyrwyr yn greiddiol bob amser. Hi yw arweinydd yr Ysgol ar addysg ryngwladol a'i hyrwyddwr o ran y Gymraeg.

Mae Cath hefyd yn aelod hirsefydledig o Grŵp Nyrsio a Bydwreigiaeth Cyn-gofrestru Cymru Gyfan ac mae wedi gwneud cyfraniad enfawr at weithrediad Safonau Nyrsio'r Dyfodol Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yng Nghymru.

Noddir gan **Brifysgol De Cymru**

University of  
South Wales  
Prifysgol  
De Cymru



# Gwobr Myfyriwr Nyrsio



**ABBIE SANDERS**

*Myfyriwr Nyrsio (Plant),  
Prifysgol Wrecsam*

Mae Abbie yn enghraifft dda o'r gorau mewn nyrsio pediatrig, gan adeiladu perthnasoedd therapiwtig cryf – hyd yn oed mewn sefyllfaoedd emosiynol gymhleth – trwy ei charedigrwydd, ei thosturi, ei gwydnwch, ei natur benderfynol, a'i phroffesiynoldeb.

Yn ystod ei chwrs mae Abbie wedi llywio heriau personol sylweddol ac wedi wynebu'r rhain i gyd gyda phenderfyniad tawel i lwyddo.

Mae adborth o'i chyfnodau ar leoliad wedi canmol dro ar ôl tro ei hethos gwaith cryf, ei natur ofalgar, a'i hymrwymiad i ragoriaeth. Mae ei hymgysylltiad â'r rhaglen wedi bod yn rhagorol, gan ddangos ei hawydd am wybodaeth a'i hymrwymiad i ymarfer a gofal sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Cafodd ei chanmol am ei chymhwysedd, ei phroffesiynoldeb, a'i gallu i aros yn ddigyffro dan bwysau a phan nad oedd ar ddyletswydd cefnogodd ymatebydd cyntaf yn ystod argyfwng meddygol, gan gyflawni adfywio cardiopwlmonaidd yn y fan a'r lle.

Mae ei phresenoldeb wedi dod â chysur i lawer yn ystod cyfnodau o ansicrwydd a gofid. Dangoswyd hyn yn arbennig o dda pan oedd ar leoliad mewn hosbis, lle darparodd ofal diwedd oes i fabi a chefnogodd y teulu galarus, gan gynnwys sibling ifanc.

Cydnabu Abbie bwysigrwydd cyfleoedd dadfrifio wedyn, gan fyfyrar yr effaith emosiynol a gafodd y profiad hwn.

Archwiliodd adolygiad llenyddiaeth terfynol Abbie fentrau ar gyfer cefnogi iechyd emosiynol nyrsys – darn o waith trawiadol, meddylgar, ac wedi'i ymchwilio'n dda a gafodd farc o 82%.



**ALWEN SAYER**

*Myfyriwr Nyrsio  
(Oedolion),  
Prifysgol Wrecsam*

Mae Alwen yn mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau yn gyson er mwyn sicrhau bod cleifion yn derbyn gofal priodol, diogel ac urddasol, a bod ei chyd-fyfyrwyr nyrsio yn cael eu cefnogi.

Yn fyfyrwraig ar y cwrs Baglor Nyrsio rhan-amser ar gyfer Cynorthwywyr Gofal Iechyd, caiff ei chydabod am ei huniondeb, ei phroffesiynoldeb, a'i hangerdd dwfn dros nyrsio.

Mae cleifion a theuluoedd yn sôn am ei gallu i wrando'n astud, rhoi tawelwch meddwl, ac eiriol dros eu hanghenion, gan gynnwys ei Chymraeg rhagorol pan fo'n briodol. Mae ei meddwl beirniadol, ei gwybodaeth, ei harbenigedd, a'i chynghor clinigol parchus a'i dylanwad hefyd cael eu canmol gan feddygon yn ogystal â nyrsys.

Fel rhan o dîm a model rôl naturiol, mae ei chymheiriaid yn gwerthfawrogi ei harweiniad a'i chefnogaeth. Yn academiaidd, mae Alwen wedi cynnal safon uchel o gyflawniad, gan gydbwyso gofynion lleoliadau clinigol, y byd academiaidd, a'i hymrwymiad i'w rôl Cynorthwydd Gofal Iechyd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Yn ystod cyfnod lleoliad diweddar yn yr Uned Gofal Coronaidd, dangosodd fenter eithriadol gyda'i dealltwriaeth a'i gwybodaeth seiliedig ar dystiolaeth i atal anaf sylweddol i glaf.

Mae hi wedi bod yn fodel rôl naturiol i gyd-fyfyrwyr nyrsio, bob amser yn barod i gynnig arweiniad, rhannu gwybodaeth, a chefnogi cydweithwyr dan bwysau. Bydd hefyd yn cyfranogi mewn mentrau i wella arferion nyrsio, megis cyfrannu at sesiynau arweinyddiaeth myfyrwyr.

Noddir gan Addysg a Gwellu Iechyd Cymru (AaGIC)



**GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES**

Addysg a Gwellu Iechyd  
Cymru (AaGIC)  
Health Education and  
Improvement Wales (HEIW)



# Gwobr Nyrs Gofrestredig – Oedolion



**ANGHARAD  
HANBURY**

*Prif Nyrs ar gyfer  
Radioleg, Bwrdd  
Iechyd Prifysgol  
Hywel Dda*

Mae brwdfrydedd, angerdd, gwerthoedd a chredoau Angharad wedi bod yn allweddol mewn gosod safonau uchel ar draws pedair adran radioleg y Bwrdd Iechyd.

Ers ei phenodiad yn 2023 mae wedi dangos arweinyddiaeth ac ymrwymiad i wella gofal cleifion radioleg a chynnal lles staff.

Mae Angharad wedi bod yn ganolog mewn datblygu'r llwybr Angiogramau Coronaidd Diagnostig a'r Weithdrefn Gweithredu Safonol Rheolydd Calon Dros Dro, gan gyflwyno archwiliadau i fonitro ansawdd o fewn yr adrannau, a datblygu dull safonol o gadw cofnodion trwy'r cofnod nyrsys radioleg.

Mae hi bob amser yn gwrandao ar ei thîm ac yn caniatáu i'w syniadau helpu i lunio'r weledigaeth, y nodau a'r cynlluniau datblygu ar gyfer y dyfodol. Wedi'u hysbrydoli gan ei chymhelliant hi a'u hymddiriedaeth ynddi, mae'r tîm wedi cefnogi'n llawn y newidiadau yn yr adran.

Mae Angharad yn arwain trwy esiampl, yn fodel rôl rhagorol, ac mae ganddi agwedd gadarnhaol sy'n ysgogi ei thîm. Mae'n cydnabod pwysigrwydd datblygiad proffesiynol ac mae wedi cyflwyno rhaglen hyfforddi a chymwyseddau staff.

Drwy ei sgiliau rhwydweithio, mae staff yn mynychu safleoedd eraill y Bwrdd Iechyd i ddatblygu eu sgiliau, ac mae un o'r adrannau radioleg wedi cael ei hasesu fel lleoliad ar gyfer myfyrwyr nyrsio.

Mae Angharad yn uchel ei pharch ac mae bob amser yn archwilio ffyrdd arloesol o yrru ymarfer yn ei flaen a gwella diogelwch a chanlyniadau i gleifion.

Noddir gan **Fwrdd Iechyd Addysgu Powys**



**EMMA PHILLIPS**

*Ymarferydd Gwella  
Ansawdd a  
Thrawsnewid  
Gwasanaeth,  
Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Hywel Dda*

Mae Emma wedi dangos ymrwymiad eithriadol i wella diogelwch a phrofiad cleifion trwy gydweithio ac arweinyddiaeth.

Yn ei phedair blynedd mewn rôl Ymarferydd Gwella Ansawdd, mae hi wedi dangos ymroddiad cyson i atal thrombosis a geir yn yr ysbyty, ac yn ddiweddar enillodd ei thîm yn Ysbyty Bronglais wobwr genedlaethol am leihau'r risg o thrombosis ymhlith cleifion yn eu gofal.

Mae hi'n adolygu'r sail dystiolaeth yn gyson ac yn gwneud gwelliannau i ymarfer er mwyn asesu ac adnabod Thrombo-emboldd Gwythiennol (VTE), ac mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi dod y Bwrdd Iechyd cyntaf i ddatblygu a gweithredu archwiliadau cadarn i fonitro'r agenda VTE, gan ddefnyddio system gwbl ddigidol.

Mae Emma wedi datblygu taflenni a thudalennau mewnwyd dwyieithog a hygyrch i hyrwyddo a rhannu gwybodaeth am VTE, ac mae wedi cymryd rhan mewn adolygiad Cronfa Risg Cymru ledled Cymru – gan arddangos y gwaith yn ei Bwrdd Iechyd ac ymweld ag eraill i ddysgu, cydweithio a rhannu.

Mae hi hefyd wedi rhannu ei harbenigedd ym maes gwella ansawdd trwy gefnogi ysbyty cymunedol lleol i wella rheolaeth anymataliaeth – prosiect sydd wedi cael ei gynnwys ar restr fer Gwobr Cynaliadwyedd Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru.

Mae Emma bob amser yn ymatebol ac yn hygyrch i dimau, gan ymdrechu'n gyson i gael effeithiau cadarnhaol ar ganlyniadau cleifion a chefnogi staff i wneud gwahaniaeth.



**GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES**

Bwrdd Iechyd  
Addysgu Powys  
Powys Teaching  
Health Board



# Gwobr Prif Swyddog Nyrsio Cymru



## ANNETTE BLACKSTOCK

Cyfarwyddwr  
Cynorthwyol

Diogelu, a

**LOUISE**

**MANN**

Cyfarwyddwr

Diogelu,

lechydd

Cyhoeddus

Cymru

Mae Annette a Louise wedi datblygu canllawiau newydd ar y cyd yn ymwneud ag apwyntiadau GIG a fethwyd, a allai achub llawer o fywydau.

Mae'r canllawiau'n ail-fframio 'Heb Fynychu' fel 'Heb Ddod â Nhw' neu 'Dim Mynediad wedi'i Gael' – gan herio gweithwyr iechyd proffesiynol i ofyn beth mae apwyntiad a fethwyd yn ei olygu mewn gwirionedd ac yn mynd i'r afael â mater a nodwyd dro ar ôl tro mewn adolygiadau diogelu.

Mae mwy na 700,000 o apwyntiadau GIG yn cael eu methu bob blwyddyn yng Nghymru, ac yn aml caiff cysylltiadau a fethwyd eu crybwyll fel cyfleoedd a gollwyd i amddiffyn plant ac oedolion sydd mewn perygl, gan arwain weithiau at ganlyniadau trasig.

Drwy ail-lunio 'Heb Fynychu' fel pryder diogelu posibl, maent wedi ymgorffori dull sy'n seiliedig ar hawliau ac sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gyda fframwaith clir, system-gyfan, wedi'i seilio ar ddeg egwyddor craidd, sydd bellach yn siapio polisi ac arfer ledled y GIG yng Nghymru.

Mae'r canllawiau cenedlaethol yn hyrwyddo chwilfrydded proffesiynol, adnabod risgiau, ac uwchgyfeirio materion diogelu mewn modd amserol.

Gwnaethant arwain gwaith cyd-gynhyrchu amlasiantaeth o offer ymarferol, gan gynnwys nodi risgiau a chanllawiau ar fynd i'r afael â rhwystrau i fynychu – gan sicrhau bod eu gwaith nid yn unig yn strategol, ond yn ymarferol ac yn ddefnyddiol i staff rheng flaen.

Gyda'i gilydd maent hefyd wedi sbarduno newid sefydliadol: gan sicrhau bod y canllawiau'n cyd-fynd â fframweithiau cyfreithiol, polisïau diogelu rhanbarthol, a rhaglenni gwella cenedlaethol.

Mae'r newid y mae Annette a Louise wedi'i gychwyn yn sicrhau nad oes unrhyw gyswllt a gollwyd yn cael ei ddiystyru, nad oes unrhyw lais bregus yn mynd heb ei glywed, ac nad oes unrhyw risg yn mynd heb ei chydabod.



## DONNA BLINSTON

*Ymarferydd Nyrsio Uwch*

*Hepatoleg, Bwrdd Iechyd*

*Prifysgol Hywel Dda*

Mae gwaith pwysig Donna wedi dangos effaith hyrwyddo iechyd, canfod cynnar, a grymuso lles mewn cleifion yr afu/iau.

Gan ganolbwyntio ar ddarparu'r gofal cywir, ar yr adeg gywir, yn y lle cywir, mae hi wedi trawsnewid llwybrau ar gyfer rhai o'r cleifion mwyaf agored i niwed ac anodd eu cyrraedd.

Cyflwynodd Donna glinigau un-stop dan arweiniad nyrsys ar gyfer cleifion yr afu/iau – gan leihau amseroedd aros, atal ymweliadau diangen ag ysbyty, a hyrwyddo gweithio amlddisgyblaethol tra'n mynd i'r afael â chyflyrau sy'n cyd-redeg a thaclo anghydraddoldebau iechyd sydd wedi hen ymwreiddio.

Mae hi hefyd wedi dechrau clinig allgymorth wythnosol mewn elusennau digartref ar gyfer pobl sy'n profi amddifadedd ac yn aml bywydau cwbl anhrefnus.

Mae digwyddiadau ymwybyddiaeth iechyd yr afu/iau Donna yn galluogi i glefyd yr afu/iau gael ei adnabod yn gynharach, ac mae ei harchwiliadau misol yn galluogi ymwybyddiaeth iechyd yr afu/iau wedi'i dargedu ar gyfer cleifion sy'n mynychu'r ysbyty.

Yn ogystal, mae Donna yn darparu hyfforddiant rheolaidd i weithwyr meddygol a myfyrwyr nyrsio, ac mae'n rhan o'r rhaglen hyfforddi meddygon iau ac yn fentor cyfaill ar gyfer Prifysgol Abertawe. Yn 2024, dangosodd Donna a'r timau gastroenteroleg, dros gyfnod o chwe mis, y gall fitamin E leihau'r straen ocsideiddiol a achosir gan fraster yn afu/iau cleifion â chlefyd brasterog metabolig yr afu/iau. Gan adeiladu ar y gwaith hwn, bydd Donna yn dechrau ar astudiaeth Doethuriaeth gyda Phrifysgol Aberystwyth ac Arloesi Cymru, gyda'r nod o herio arfer cyfredol ac o bosibl lleihau'r baich ar y GIG.



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Noddir gan Brif Swyddog Nyrsio Cymru, Llywodraeth Cymru



# Gwobr Nyrs y Flwyddyn RCN Cymru 2025

Gwobr Nyrs y Flwyddyn Cymru yw'r clod pennaf yn y seremoni heno. Mae'r wobr yn cydnabod rhagoriaeth mewn ymarfer proffesiynol ac arweinyddiaeth ragorol. Bydd yr enillydd wedi gwneud cyfraniad sylweddol a pharhaus i wella gofal cleifion yng Nghymru ac wedi bod yn allweddol mewn datblygu arloesedd ym maes nysio. Trwy eu cyflawniadau bydd yr enillydd wedi chwarae rhan sylweddol mewn gwella enw da'r proffesiwn nysio.

### Meini Prawf ar gyfer y Wobr:

- Rhaid i Nyrs y Flwyddyn Cymru fod wedi dangos rhagoriaeth yn eu maes
- Bernir bod eu cyfraniad i gymuned nysio a gofal iechyd y wlad yn sylweddol
- Rhaid i'r enillydd fod yn fodel rôl ysbrydoledig ar gyfer y gymuned nysio a gofal iechyd

Noddir gan **YMDDIRIEDOLAETH GIG PRIFYSGOL FELINDRE**



**GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES**

Ymddiriedolaeth GIG  
Prifysgol Felindre  
Velindre University  
NHS Trust

## Cyhoeddir Nyrs y Flwyddyn RCN Cymru 2025 yn y seremoni wobrwyo.

### ENILLWYR GWOBUR NYRS Y FLWYDDYN RCN CYMRU

#### **ENILLYDD 2012: LOUISE POLEY** Nyrs

Ymgynghorol ar gyfer Camddefnydd  
Sylweddau, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd  
a'r Fro

#### **ENILLYDD 2013: RUTH OWENS** Prif Nyrs Ward, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

#### **ENILLYDD 2014: VERONICA JARMAN** Prif Nyrs Ysbyty Dydd, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

#### **ENILLYDD 2015: CLAIRE HARRIS** Prif Nyrs Ward, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

#### **ENILLYDD 2016: SIAN THOMAS**

Nyrs Ymgynghorol (Iechyd Plant), Bwrdd Iechyd  
Prifysgol Aneurin Bevan

#### **ENILLYDD 2017: LOUISE WALBY**

Hwylusydd Nysio Anadlol, Bwrdd Iechyd  
Prifysgol Cwm Taf

#### **ENILLYDD 2018: EVE LIGHTFOOT** Nyrs Atal Heintiau Cymunedol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

#### **ENILLYDD 2019: JEAN SAUNDERS MBE**

Nyrs Arweiniol Ceiswyr Lloches, Bwrdd Iechyd  
Prifysgol Bae Abertawe

#### **ENILLYDD 2021: KIRSTY JOHN** Prif Nyrs, Carchar Ei Mawrhydi Caerdydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

#### **ENILLYDD 2013: TARA REES** Ymarferydd Nysio Arweiniol, Gwasanaeth Hepatoleg, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

#### **ENILLYDD 2024: MADELAINE WATKINS**

Nyrs Glinigol Arbenigol ar gyfer Seicosis  
ymhlith Oedolion Hŷn, Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Caerdydd a'r Fro

*"Ers dod yn Nyrs y Flwyddyn RCN Cymru 2024, rydw i wedi defnyddio'r plattfform i hyrwyddo ymwybyddiaeth well o'r anghydraddoldebau iechyd a wynebwr gan bobl hŷn sy'n profi lleisiau trallodus, gweledigaethau a chredoau nas rhennir – a ddisgrifir weithiau fel 'seicosis'. Rydw i wedi cael y fraint o fynychu digwyddiadau mawr megis Cyngres RCN a Chyngres Cyngor Rhyngwladol y Nyrsys (ICN) yn Helsinki, ac rydw i wedi bod yn falch o arwain ymgyrchoedd RCN gan gynnwys Diwrnod Rhyngwladol y Nyrsys ac Wythnos Agored Cartrefi Gofal. Rydw i'n dal i gofio siarad yn fyw ar y radio y diwrnod ar ôl y gwobrau – digwyddiad a nododd ddechrau ymgyrch a hyder cynyddol i ddefnyddio'r rhwydweithiau a'r cyfleoedd newydd hyn ar gyfer newid. Rydw i'n angerddol dros ysbrydoli mwy o nyrsys i weithio gyda phobl mewn trallod eithafol gan ddefnyddio dulliau sy'n cael eu llywio gan drawma, a chefnogi myfyrwyr a nyrsys newydd gymhwyso i archwilio gyrfaedd mewn nysio iechyd meddwl gyda phobl hŷn."*

